PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

Rhifyn digidol | Rhif 430 | Mehefin 2020



Y fets
t.3



Merched Plasraf
t.23



Ffarwel Gari
t.12

# Pob lwc i chi!



Ruth Edwards yn ei gardd gyda physgod pren 'Borth Begins'. t.5



Perchennog newydd Siop Sglodion Bow Street t.7




Llongyfarchiadau i Osian Tudur Mills, Penrhyn-coch ar ddod yn drydydd yn Adran Ieuenctid Adran De Cymru (1150) y Clwb Rotari yn eu Cystadleuaeth Ysgrifennwr Ifanc 2019/20.

## Diolch




Baner gododd Cyngor Trefeurig - gweler t.12




Newyddion 9 yn fyw o Dôl Helyg, Penrhyn-coch ar Fai 21 - noson y clapio wythnosol gyda Steffan yn chwythu a Stephen yn siarad

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Medi** Dyddiad cau Medi 4; Dyddiad cyhoeddi Medi 17

**MEHEFIN 29** Dydd Llun Ysgolion Cymru yn ailagor

**GORFFENNAF 4-5** Dyddiau Sadwrn a Sul Twrnament pêl-droed Eric ac Arthur Thomas, Penrhyn-coch **Wedi ei symud o fis Mai**

**GORFFENNAF 4** Nos Sadwrn Cyngerdd Calon Hafan **Wedi ei symud i nos Sadwrn 20 MAWRTH 2021**

**GORFFENNAF 27** Dydd Llun Ysgolion Cymru yn cau am wyliau'r haf

**GORFFENNAF 25 - AWST 30** Carnifal y Borth – gweler t4.

**AWST 1** Dydd Sadwrn Sioe Capel Bangor GOHIRIWYD

**AWST 1-8** Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion Tregaron GOHIRIWYD

**AWST 15** Dydd Sadwrn Sioe Penrhyn-coch GOHIRIWYD

**AWST 28-30** Gŵyl Big Tribute, Gelli Angharad GOHIRIWYD TAN 27-29 AWST 2021

**AWST 29** Dydd Sadwrn Sioe Tal-y-bont. Bydd y Sioe yn cael ei chynnal eleni yn rhithiol. Cyhoeddir manylion cyn hir ar dudalen Facebook Sioe Tal-y-bont ac ar y wefan www.sioetalybontshow.com

**MEDI 3** Dydd Iau Ysgolion Ceredigion i fod i ailagor ar ôl gwyliau'r haf

**MEDI 5** Dydd Sadwrn Dyddiad newydd Ras am Fywyd Aberystwyth GOHIRIWYD TAN 2021

**MEDI 5** Dydd Sadwrn Sioe Rhydypennau GOHIRIWYD TAN MEDI 4 2021

**MEDI 7** Nos Lun Cyfarfod blynyddol y Tincer am 7.00 Lleoliad i'w gadarnhau yn nes at y dyddiad

**MEDI 10-13** Dyddiau Iau i Sul Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol ar gaeau Tan-y-castell, Rhydyfelin GOHIRIWYD

**MEDI 19** Dydd Sadwrn Eisteddfod Cwmystwyth GOHIRIWYD

**2021**
**MAWRTH 20** Nos Sadwrn Cyngerdd Calon Hafan yn y Neuadd Fawr.

**Diolch**
Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu trwy yrru newyddion neu erthygl dros y misoedd diwethaf. Gwerthfawrogir nad yw yn hawdd gyrru ym mhob achos. Gobeithiwn y byddwn yn ôl i drefn debyg i'r arfer erbyn mis Medi. Diolch hefyd i wefannau Trefeurig a Bro360 am y cyfle i gyhoeddi y fersiwn ddigidol o'r Tincer dros gyfnod y cyfyngiadau presennol.

**Rhaglen cymanfa ganu**
Cyhoeddodd y Pwyllgor Mawl Cyd-enwadol y byddant yn defnyddio Rhaglen Cymanfaoedd Canu 2019-2020 eleni ar gyfer Cymanfaoedd 2021. Nid oes bwriad dod a rhifyn arall allan y flwyddyn nesaf.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â'n teipydd, Iona Bailey a'r teulu, ar farwolaeth ei thad yng nghyfraith yn ystod y mis.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Mai 2020

**£25** (Rhif 5) Bethan Jones, 2 Rhos Hendre, Waunfawr
**£15** (Rhif 228) Gwyn Jones, Glynteg, Bow Street
**£10** (Rhif 9) Catrin Davies, 54 Ger-y-llan, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd oherwydd y cyfyniadau presennol.

Cofiwch os ydych yn aelod o'r Cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch wybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970 880228 neu ar ebost **m.e.bebb@talk21.com**

## 30 MLYNEDD YN OL




Tîm hoci Ysgol Penrhyn-coch – enillwyr tarian y cylch; rhes gefn (Chwith i'r dde): Emma Egan, Lynne Hughes, Nicola Harding, Ellen Davies; rhes flaen: Louise Foley, Sara Beechey, Nia Morgan, Charlotte Read. (o'r *Tincer* Mai 1990) Llun: Hugh Jones



Bu Cwmni Drama Sefydliad y Merched Pen-llwyn yn cymryd rhan yng Ngŵyl Ddrama Ceredigion yn Theatr Felin-fach yn ddiweddar. Enillasant Darian Ceredigion am y perfformiad gorau. Roedd y ddrama 'See if I care' gan Cherry Vought wedi ei chynhyrchu gan Marie Vaughan Jones. Enillwyd y cwpan am yr actor neu actores orau yn y gystadleuaeth gan Mrs Enid Vaughan, hefyd o Sefydliad y Merched, Pen-llwyn. Llongyfarchwn hwy am fod mor llwyddiannus. (O'r *Tincer* Mehefin 1990)

Trydan
WILL DAVEY
Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

# Cyfres Newydd - Y Fets

Croesewir y gyfres newydd o'r Fets ar S4C ar nosweithiau Iau am 21.00. Rhaglenni sy'n dilyn gorfoledd, tristwch, a drama bywyd pob dydd y practis yn Ystwyth Vets. Eisoes gwelsom Lauren a Sion James a Frankie yn ymweld; Ritchie Jenkins a Cari a'u ci bach a bu'n rhaid ymweld â cheffylau Peter Cwmcanol a Beti Daniel. Gwelwyd Dafydd Rees, Brysgaga, sydd yn fyfyriwr milfeddygol ym Mhrifysgol Lerpwl yn y rhaglen gyntaf - gwyliwch y gofod!



CIGYDD BOW STREET
01970 828447
BOW STREET BUTCHERS SHOP
Deli
Cigydd a delicatessen o safon arbennig
01970 828447 - Pendre, Bow Street, SY24 5BQ



Tybed a fyddai un o ddarllenwyr Y Tincer yn gallu taflu goleuni ar y llun yma sydd yn eiddo i Gareth William Jones, Bow Street. Mae'n credu mai llun o dîm pêl-droed lleol ydi o – ond nid Bow Street. Goginan efallai? Rhowch wybod i'r golygydd os gwyddoch.

# Y BORTH






## MANYLION DIGWYDDIADAU CARNIFAL Y BORTH 2020

| | |
|---|---|
| **CORONI BRENHINES Y CARNIFAL**<br>Sadwrn 25 Gorffennaf | Bydd Brenhines y Carnifal, Miss Eliza Williams, yn cael ei choroni am 2yp gan ei thad Mark Williams. |
| **SIOE GŴN Y CARNIFAL**<br>Cae ger tafarn y Railway<br>Sul 26 Gorffennaf | Sioe gŵn yn dechrau am 2yp.<br>Dosbarthiadau: Ci harddaf, gast bertaf, clustiau gorau, mwyaf tebyg i'w berchennog, y cynffon sy'n siglo fwyaf. |
| **MURLUNIAU SIALC**<br>Morglawdd gyferbyn â'r YHA<br>Sadwrn a Sul 1-2 Awst | Gwyliwch artistiaid yn creu darluniau gyda sialc neu rhowch gynnig arni eich hunan (neu gyda'r plant). Rhwng 10yb a 5yp. Cofrestrwch mor fuan â phosib gyda Dean Tweedy yn Sw y Borth ar 01970 871224 neu dean@marvellousmurals.co.uk |
| **Y POTIAU BLODAU NEU FASGEDI CROG GORAU AR Y RHINIOG CYSTADLEUAETH AR-LEIN**<br>Ardal y Borth, Glanwern, Ynys-las a meysydd carafan. Sadwrn a Sul 1-2 Awst | Ewch ati i harddu'ch stepen drws gyda blodau. Noddir gan Borth Tattoo. Manylion pellach ar dudalen Carnifal y Borth ar Facebook. |
| **PICNIC TEDI BÊRS**<br>Yn eich cartref neu'ch gardd chi ond ymunwch â ni ar ZOOM rhwng 10.30-12.30 | Bydd gêmau, gweithgareddau crefft, canu a mwy... a gwobrau ar gyfer y Tedi Bêr yn y wisg orau a'r Tedi Bêr anwylaf un. Bydd manylion pellach ar dudalen Facebook Canolfan Teulu'r Borth wythnos mlaen llaw. |
| **DIWRNOD AGORED YN Y GERDDI CYMUNEDOL**<br>Gerddi cymunedol (ger yr eglwys)<br>Sul 9 Awst | Dewch i weld y Gerddi Cymunedol ar bnawn Sul o 2yp ymlaen. |
| **CYSTADLEUAETH CODI CASTELL TYWOD**<br>Traeth ger y maes parcio wrth droad Ynys-las. Sul 2 Awst | Cystadleuaeth cestyll tywod yn dechrau am 1.30yp – dewch yn lli! |
| **HELFA DRYSOR**<br>Adeilad y Bad Achub . Llun 3 Awst | Helfa drysor yn dechrau am 1yp – dewch â phensil neu ysgrifbin. |
| **RAS HWYAID**<br>Pont Glanleri. Sul 30 Awst | Cwrdd wrth y bont am 2yp ond rhifau hwyaid i'w prynu mlaen llaw gan aelodau Pwyllgor y Carnifal neu o siopau Nisa a Premier. |

NI ALL CARNIFAL Y BORTH DDERBYN CYFRIFOLDEB AM UNRHYW DIFROD, DAMWAIN NEU ANAF PERSONOL YN YSTOD DIGWYDDIADAU. RYDYCH YN CYMRYD RHAN AR EICH RISG EICH HUN. MAE'R PWYLLGOR YN CADW'R HAWL I OHIRIO UNRHYW DDIGWYDDIAD OHERWYDD TYWYDD GWAEL NEU EI SYMUD I LEOLIAD DAN DO.

**Carnifal y Borth 2020**

gan Carol Bainbridge, Cadeirydd Pwyllgor Carnifal y Borth

Wrth i'r cyfnod cloi ddechrau, penderfynodd Pwyllgor Carnifal Y Borth fod angen iddynt gadw ysbryd y Carnifal i fynd.

Cylchgrawn y Carnifal yw dechrau'r Carnifal, felly fe benderfynon ni ddechrau gyda hynny er mwyn cadw'r Carnifal yn fyw ym meddyliau pobl ac oherwydd ei fod yn gyfarwyddiadur lleol mor ddefnyddiol i'r Borth. Mae'n gyfnod digynsail, ond fel bob amser, mae'r Borth wedi dangos ysbryd cymunedol gwych. Fe wnaethon ni ethol Brenhines Carnifal, Eliza Williams yn y llun uchod, ac yna mynd at fusnesau lleol i weld a fyddent yn ein cefnogi i hysbysebu yn y cylchgrawn.

Eleni ni allwn gael Gorymdaith Dydd y Carnifal, ond byddwn yn cynnal digwyddiadau'r Carnifal lle gellir pellhau'n gymdeithasol fel y Chalkfest, lle gall unrhyw un roi cynnig ar dynnu lluniau sialc ar y morglawdd, neu adeiladu cerflun tywod yn y gystadleuaeth Cestyll Tywod yn Ynys-las. Bydd Helfa Drysor hefyd a bydd y Gerddi Cymunedol yn cynnal diwrnod agored i bobl weld y coedwigoedd cymunedol a'r lleoedd maen nhw wedi'u creu. Bydd gennym Sioe Cŵn Carnifal am y tro cyntaf hefyd a bydd rhubanau ar gyfer y ci mwyaf golygus a'r ast harddaf, y gynffon sy'n ysgwyd fwyaf a'r clustiau gorau, a hefyd ar gyfer y ci sy'n edrych fwyaf tebyg i'w berchennog. Fel diweddglo i'r Carnifal, rydym bob amser yn cynnal y Ras Hwyaid i lawr y Leri a bydd rhifau yr hwyaid ar gael i'w prynu ym mis Gorffennaf.

Gobeithiwn y bydd pobl yn dod i'r holl ddigwyddiadau hyn, ond byddwch yn ofalus iawn ynghylch pellhau cymdeithasol a rhyngweithiad. Gobeithio y bydd pethau'n ôl i normal y flwyddyn nesaf ac y gallwn ddathlu eto'r gymuned unigryw sy'n Y Borth.

**Cymunedau Gofalgar y Borth**

Ar ddechrau'r cyfnod clo, aeth staff Canolfan Teulu'r Borth ati i symud eu gwasanaethau a'u gweithgareddau ar gyfer teuluoedd a phobl ifanc ar-lein. Ond roedden nhw'n sylweddoli na fyddai trefniant o'r fath o reidrwydd yn gweithio ar gyfer aelodau eu grŵp dementia. Gwnaed cais felly am gymhorthdal cadernid Covid-19 i gefnogi'r garfan yma o'r gymuned.

Roedd y cais yn llwyddiannus a dyma gychwyn ar fenter Cymunedau Gofalgar y Borth. Aed ati i brynu pecynnau celf, porthwyr adar a phlanhigion, ac mae staff a gwirfoddolwyr wedi bod yn mynd â'r deunydd at stepen drws aelodau'r grŵp.

Cynigiwyd cefnogaeth dros y ffôn hefyd ac fe roddwyd cymorth i bobl i wella'u sgiliau digidol er mwyn iddyn nhw allu



Helen Williams o Ganolfan Teulu'r Borth, Mark Williams a'r cynghorydd cymuned Delyth Pryce Jones yn mynd â nwyddau i aelodau o grŵp dementia'r pentref.

defnyddio gwasanaethau fideo gynadledda fel Zoom a chysylltu'n fwy effeithiol gyda theulu a ffrindiau. Bydd y gwaith yn parhau tan ddiwedd y cyfnod clo.

**Sylw o'r newydd i sgadan y Borth**

Gan Stuart Evans

Mae pysgod pren wedi'u haddurno yn cael eu harddangos yn gyhoeddus yn y pentref unwaith eto'r haf hwn.

Yn 2019, daeth trigolion y Borth ynghyd i berfformio cynhyrchiad theatr stryd o'r enw 'Borth Begins'. Roedd pedair rhan i'r cynhyrchiad, gyda phob rhan yn cael ei llwyfannu mewn lleoliad gwahanol.

Y traeth o flaen gorsaf y bad achub oedd lleoliad yr olygfa gyntaf ac roedd yn canolbwyntio ar hanes pysgota sgadan, oedd yn ddiwydiant holl bwysig tan ddechrau'r 20fed ganrif. I gyd-fynd â'r thema, cafodd dros gant o bysgod pren eu cerfio a'u haddurno gan bobl leol.

Yn y misoedd yn arwain at y perfformiad, bu'r hen a'r ifanc yn rhan o'r prosiect gyda grwpiau fel Clwb Ieuenctid y Borth, Cymdeithas yr Henoed, Grŵp Cyfeillgarwch, Celfyddydau'r Borth a Chanolfan Teulu'r Borth yn ymateb i'r her o baentio ac addurno pysgodyn ynghyd â nifer o unigolion.




Cafodd pob un o'r pysgod a grëwyd eu harddangos ar y traeth yn ystod y cynhyrchiad ym mis Awst 2019 – ac nawr maen nhw'n cael eu harddangos yn gyhoeddus unwaith eto.

Mae Ruth Edwards sy'n byw yn 'Arequipa', ar Stryd Fawr y Borth, drws nesaf i Oriel Tir a Môr, wedi eu gosod yn ei gardd er mwyn i bobl allu mwynhau'r creadigaethau lliwgar a llon yn ystod y cyfnod clo.

Dywedodd Ruth: "Roedd 'Borth Begins' yn ddiwrnod mor arbennig ac rwyn gobeithio y bydd yr atgof yma o sut y daeth y pentref ynghyd i ddathlu agweddau ar ei hanes cyfoethog yn codi calonnau pobl wrth iddyn nhw gerdded heibio."

Bydd y pysgod i'w gweld yng ngardd Ruth dros fisoedd yr haf.

**Ar Werth**

Un o dai y Borth oedd seren y sioe yn y gyfres newydd o Ar Werth sy'n cael ei dangos ar S4C ar hyn o bryd.

Cartref Bryn a Bibby Jones yn Ffordd y Fulfran oedd yn cael sylw'r arwerthwyr Iestyn Leyshon yn y rhaglen a ddarlledwyd nos Fercher 10 Mehefin.



Y pensaer lleol Harri James a ddyluniodd y tŷ sydd â phedair ystafell wely ac sydd ar y farchnad am dros hanner miliwn o bunnau. Ond pa dacteg gwerthu arbennig sydd gan Iestyn wrth iddo geisio denu'r prynwr iawn drwy'r drws? Mae'r rhaglen ar gael i'w gwylio ar wefan Clic tan 14 Gorffennaf 2020.

**Ar Ddyletswydd**

Mae heddlu Aberystwyth wedi bod yn galw'n gyson yn y Borth yn ystod y cyfnod clo, er mwyn sicrhau bod pobl yn cydymffurfio â chyfyngiadau Llywodraeth Cymru.

Ar benwythnos braf ddiwedd mis Mai, roedd y Cwnstabl Arbennig Dave Goffin a'r Cwnstabl Mark Railton yn gwirio rhifau cofrestru ceir yn y maes parcio ger gorsaf y bad achub er mwyn sicrhau eu bod yn lleol. Bu'r ddau hefyd yn cerdded ar hyd y traeth yn gofyn i bobl a oedden nhw'n byw yn yr ardal neu wedi teithio o bell.



**Graddio gwahanol**

Llongyfarchiadau i Mared Pugh-Evans sydd wedi graddio yng Nghaerdydd a dymuniadau gorau iddi ar ei chwrs yn Llundain. Gofynnwyd iddi sut lwybr fu'n rhaid iddi gymryd dan y cyfyngiadau presennol.

Ar ôl bron i bedair blynedd o astudio ar gyfer fy ngradd BMus yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, roeddwn yn edrych ymlaen at chwarae fy Mherfformiad Terfynol ym mis Mai o flaen fy nheulu a fy ffrindiau, yn ddathliad o'r holl waith caled dros y blynyddoedd diwethaf, ond yn anffodus nid dyna ddigwyddodd.

Caeodd y coleg yn ystod wythnos olaf Mawrth, ac fe es adref o dan yr argraff y byddai pawb yn ôl ym mis Mai i orffen ein cyrsiau a mwynhau ein misoedd olaf yn y coleg efo'n ffrindiau cyn y seremoni raddio oedd i'w chynnal ar gychwyn mis Gorffennaf. Ond wrth i'r pandemig waethygu o wythnos i wythnos, roedd hi'n amlwg na fyddai'r coleg yn ail-agor fel yr oeddem wedi gobeithio.

Daeth yn amlwg y byddwn i a phawb arall yn fy mlwyddyn, fel myfyrwyr blwyddyn olaf, yn gorfod gwneud ein perfformiadau ar-lein a phenderfynodd y coleg mai'r ffordd orau a mwyaf teg i wneud hyn fyddai inni recordio ein perfformiad ar ba bynnag ddyfais oedd gennym. Yn lle chwarae perfformiad 40 i 50 munud o hyd, dim ond 20 i 30 munud oedd angen ei recordio ag yn hytrach na chwarae mewn neuadd gyngerdd yn y coleg, bu rhaid imi wneud y recordiad yng nghegin mam a dad yn Aberdâr.

Rydyn ni'n lwcus iawn bod y coleg wedi creu 'No Detriment Policy' sy'n sicrhau na fydd ein marc yn gostwng yn is na'n marc cyfartalog dros y flwyddyn ddiwethaf, felly fydd y sefyllfa sydd ohoni ddim yn effeithio ar ein marc terfynol.

Wedi dweud hynny, dwi'n lwcus fy mod wedi gallu gorffen fy mlwyddyn olaf a graddio cyn dechrau fy Nghwrs Meistr yn yr Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain ym mis Medi.

**Mared Pugh Evans**



# BOW STREET

**Sioe Rhydypennau**
Fel yn achos cymaint o ddigwyddiadau eraill ni chynhelir Sioe Arddwriaethol Rhydypennau eleni oherwydd yr argyfwng Coronafeirws. Hyderir y pydd pethau`n well erbyn y flwyddyn nesaf ac yr ydym yn anog ein garddwyr ag ati i roi 4 Medi 2021 yn y dyddiadur!

**Ennill ysgoloriaeth**
Llongyfarchiadau i Sara Huws (Maes y Garn gynt) fydd yn ymuno ag Adran Ddaearyddiaeth Prifysgol Abertawe yn yr Hydref, ar ysgoloriaeth i astudio MSc a PhD mewn amgueddfeydd ac ymgyrchu. Bydd yn dal i weithio gyda tîm Llyfrgelloedd ac Archifau Prifysgol Caerdydd. Dymuniadau gorau iddi yn y gwaith.

**Swydd newydd**
Llongyfarchiadau i Lloyd Elis (Huw Lloyd Jones, Lasynys gynt) ar gael ei benodi iswydd Rheolwr Gweithredol Sgiliau ac Hyfforddiant gyda Ffilm Cymru Wales yng Nghaerdydd. Bu Lloyd yn gweithio yn llawryf am 30 mlynedd o fewn y diwydiant cynhyrchu ar gynhyrchion ffilm a theledu ar draws Prydain ac yn rhyngwladol; bu'n Gynhyrchydd Llinell a Rheolwr Cynhyrchu Uned i gwmnïau mor wahanol a Netflix, Lionzgate, BBC Films, Channel 4 Film, Sky Atlantic, ITV ac yn ddiweddar bu'n gweithio efo Steven Spielberg i Amblin TV yn saethu tymor cyntaf o "Brave New World" ar gyfer y sianel ffrydio newydd a lansiwyd gan NBCU yn ddiweddar – Peacock ar leoliad yng Nghymru ac yn Dragon Film Studios ym Mhen-y-bont ar Ogwr.



Gydol ei yrfa bu'n gefnogol i gynlluniau hyfforddi i Ffilm Cymru Wales- "Foot in the Door", BBC Cymru- "It's My Shout" ac academi hyfforddi'r BBC yn Stiwdios Elstree pan fu yn gweithio fel Rheolwr Cynhyrchu ar EastEnders.


Yn 2019 roedd yn gyfrifol am ddatblygu a rheoli y cynllun partneriaeth hyfforddi ar y cyd – Onset PA Bootcamp ar ran Llywodraeth Cymru a NBCU. Yn ogystal a cherdded Albert Square (EastEnders) bu hefyd yn gweithio ar Casualty a'r Gwyll.

Yn y llun fe'i gwelir efo Judi Dench pan fu hi yn gweithio gyda Lloyd ar ffilm newydd sbon gan Celyn Jones ac Eddie Izzard o'r enw "Six Minutes to Midnight". Ar hyn o bryd mae y ffilm yn anffodus o dan gyfnod o ohiriad o ran cael ei lansio yn Sinemâu yn UDA a Phrydain oherwydd mesurau diogelwch cloi Cofid-19.

Mae Lloyd wedi cychwyn yn ei waith newydd ers dechrau mis Mai ond mae hefyd

wedi gorfod dysgu sgiliau newydd yn bersonol ei hunan gyda dygymod a chyfarfodydd staff ar ZOOM! Dymuniadau gorau iddo.

**Pen blwyddi arbennig**
Mae'n fis o ben blwyddi mawr yn y pentref. Yn gyntaf, pen blwydd hapus iawn i Alison Lewis, Garreg-wen, sydd wedi cyrraedd yr oedran teg o 60 oed ar 18 Mehefin. Daw'r dymuniadau gyda chariad mawr oddi wrth Wyn, Mari Wyn, Ioan, Elis, Mam, Dad a Mam-gu Cil-y-cwm – ac oddi wrth lu o ffrindiau Alison.




Pen blwydd hapus a dymuniadau gorau hefyd i Dinah Henley, Doleglur, Bow Street, ar ddathlu ei phen blwydd yn 80 oed ar 17 Mehefin. Daw'r cyfarchion a'r dymuniadau gorau oddi wrth y teulu a'r ffrindiau i gyd.

**Pen blwydd hapus** hefyd i'r fam arbennig yma, Auriel Evans, Trewylan, sydd yn troi yn 70 oed ar yr 20fed o Fehefin -joia dy diwrnod sbesial- Cariad Mawr Ruth a Rachel xx



**Piod o amgylch y byd ... a thu hwnt!**
Ar 3 Mai cychwynnodd chwaraewyr, swyddogion a chefnogwyr Clwb Pêl-droed Bow Street ar her anferthol i deithio pellter sy'n cyfateb ag un cylch o gwmpas y byd, sef 24,860 o filltiroedd, er mwyn codi arian at elusennau lleol – gyda'r bwriad o gwblhau'r gamp mewn 70 diwrnod. Ac yn wir, ar 9 Mehefin, cyhoeddwyd bod y Piod wedi llwyddo, a chwblhawyd y daith ryfeddol ac aethpwyd rownd y byd, a hynny mewn 37 diwrnod!




Nod yr her oedd codi £5,000 ar gyfer dwy elusen leol sef Apêl GIG Covid 19 Hywel Dda, a HaHav – Gwirfoddolwyr Hosbis yn y Cartref Cylch Aberystwyth, yn ogystal â Chlwb Pêl-droed Bow Street. Codwyd £3000 eisoes.

Yn hytrach na bodloni gyda'r ymdrech enfawr a osodwyd, mae swyddogion y clwb wedi penderfynu gosod targed ychwanegol sy'n seiliedig ar deithiau tîm pêl-droed rhyngwladol Cymru, a'r lleoedd roedd y tîm i fod i chwarae ynddynt yng nghystadleuaeth Ewros 2020. Dyma'r syniad: bydd pob milltir a gofnodwyd o hyn ymlaen yn mynd â Chymru ymhellach yn y twrnament – y pellaf aiff y Piod, mwyaf llwyddiannus fydd tîm Cymru, gan fwriadu teithio yr holl ffordd i'r ffeinal yn Wembley ar 12 Gorffennaf! Ac felly mae aelodau a chyfeillion CPD Bow Street wedi cychwyn ar ail ran yr her, ac yn parhau i godi arian at y ddwy elusen, a chwalu'r targed o £5,000. Cofiwch gefnogi! I gyfrannu ewch i dudalen JustGiving:

https://www.justgiving.com/crowdfunding/bowstreet-fc

Diolch.

Ar nodyn mwy syber, rhywbryd rhwng dydd Sadwrn 30 Mai a dydd Mawrth 2 Mehefin chwalwyd nifer o seddi yn

# BOW STREET



eisteddle Emlyn Rees ar Gae Piod. Mae'r fandaliaeth ddisynnwyr wedi peri gofid mawr i'r clwb ar yr union adeg y mae chwaraewyr, aelodau iau, swyddogion a'r gymuned ehangach yn tynnu at ei gilydd i gwblhau her fawr y Piod, 'O Amgylch y Byd', i godi arian at achosion da. Mae'r clwb yn ymfalchïo yn y ffaith fod ganddo gyfleusterau o'r radd flaenaf i'r gymuned gyfan eu mwynhau; nawr bydd rhaid atgyweirio'r difrod mewn cyfnod lle mae adnoddau'r Clwb yn gyfyngedig a chyfleoedd i godi arian yn brin. Mae ymholiadau'r Heddlu ar waith, ac mae tystiolaeth teledu cylch cyfyng ar gael. Os oes gennych unrhyw wybodaeth all helpu, cysylltwch â'r Heddlu yn uniongyrchol neu swyddogion y Piod yn Bow Street.

**Gwestai radio**

Esyllt Sears oedd un o westeion Dylan Ebenezer ar ei raglen radio newydd Ynys yr Hunan-ynyswyr am 6.30 nos Sul 7 Mehefin



**Ateb y Galw**


Y berfformwraig Cêt Haf fydd yn Ateb y Galw yr wythnos hon ar BBC Cymru Fyw.

**Ysgol Sul Gofalaeth y Garn**



Ers rhai wythnosau bellach, mae Watcyn a Lowri James wedi bod yn cynnal sesiynau'r ysgol Sul drwy Zoom, i blant capeli'r ofalaeth, gan gynnwys ysgol Sul Bow Street. Hyd yn hyn, mae'r plant wedi cael dameg y ddafad golledig, hanes y tafodau tân adeg y Pentecost, a hanes gwella'r dyn oedd yn methu cerdded. Mae'r plant – a'r rhieni – yn cael chwileiriau, lluniau i'w lliwio, ffilmiau i'w gwylio, posau o bob math – a rhoi cynnig ar wneud cacen 'dafad' o falws melys a botymau sioced!

Diolch i Watcyn a Lowri am roi o'u hamser yn trefnu'r cyfan; mae'n hyfryd gweld wynebau pawb ar y sgrin, a phawb yn frwd a chroesawgar. Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r sesiynau, sy'n para tua hanner awr ar fore Sul, 10.30. Cysylltwch â'r gweinidog am fanylion.







## Perchennog newydd – busnes yn ailagor

Gyda'r holl lefydd bwyta a chaffis ar gau ers wythnosau bellach, mae'n braf gweld bod un busnes yn Bow Street wedi mentro ailagor, a hynny dan ofal perchennog newydd, Gwilym Jones. Un o Feddgelert yw Gwilym, ac fe gafodd ei hyfforddiant yng Ngholeg Llandrillo. Mae ganddo flynyddoedd o brofiad o goginio mewn bwytai a gwestai lleol, gan gynnwys Gwesty'r Marîn a Llety Parc. Treuliodd flynyddoedd hefyd yn gogydd yn y brifysgol yn Aberystwyth, ac mae'n byw gyda'i deulu yn Llangorwen. Agorodd Gwilym y siop sglodion yn Bow Street ar 1 Mawrth, cyn gorfod cau eto'n ddisymwth cyn diwedd y mis. Ond bellach mae'r siop ar agor ac yn darparu prydau bwyd blasus o ddyddiau Mawrth – Sadwrn, 4.30–8.30. Mae gan y busnes dudalen Facebook, ac mae modd archebu bwyd ymlaen llaw dros y ffôn (820567). Dymuniadau gorau iddo gyda'r fenter, a chofiwch alw heibio i'w gefnogi, a chael sgod a sglods hyfryd!





# Croesawu'r cyfle i fwrw pleidlais

## Harri Antoninis

Ers 1 Mehefin 2020, mae Cymry rhwng un ar bymtheg a deunaw oed yn medru cofrestru i bleidleisio yn yr etholiadau seneddol fydd yn digwydd yn 2021. Mae'r newidiadau hyn yn dod i rym ar ôl i'r Cynulliad gytuno ar Ddeddf Senedd ac Etholiadau Cymru 2020 fis Tachwedd y llynedd. Mae'r ddeddf hon hefyd yn galluogi tramorwyr sydd â›r hawl i fyw yng Nghymru i bledleisio, ac yn newid enw'r cynulliad i 'Senedd Cymru'. Dyma'r newidiadau etholfraint mwyaf yng Nghymru ers 1969, pan ostyngwyd yr oedran pledleisio o un ar hugain i ddeunaw oed. O safbwynt datblygu democratiaeth, gellid dadlau bod y ddeddf newydd hon yn rhoi Cymru ar y blaen. Dim ond mewn deg gwlad mae hi'n bosib pleidleisio yn un ar bymtheg oed ar hyn o bryd. Ond â'r Alban, Ynys Manaw, Jersey, Ynys y Garn (Guernsey) a Chymru yn rhoi'r cyfle i'r rhai dan ddeunaw oed bledleisio, mae yna fwy a mwy o alw ar San Steffan i wneud yr un newidiadau ar gyfer yr etholiadau cyffredinol.

Ond pam gostwng yr oedran pledleisio gymaint? Y ddadl fwyaf amlwg yn erbyn hyn fyddai bod rhywun sydd mor ifanc ag un ar bymtheg ddim yn ddigon aeddfed i allu dewis mewn modd cyfrifol pwy ddylai arwain ei wlad. Mewn geiriau eraill, byddai rhai yn dadlau nad yw dealltwriaeth wleidyddol pobl ifanc dan ddeunaw oed yn ddigonol i ymgymryd â›r cyfrifoldeb hwn. Ond mae pobl yn anghofio bod pobl ifanc yn eu harddegau erbyn hyn yn ymddiddori ac yn poeni cryn dipyn am benderfyniadau gwleidyddol, efallai mwy hyd yn oed na 50 mlynedd yn ôl, pan fu ton o brotestiadau amlwg gan yr ifanc mewn gwahanol rannau o'r byd. Efo cymaint o agweddau ar ein cymdeithas yn gwaethygu bob blwyddyn, ac yn fwy na dim, o gofio realiti yr argyfwng hinsawdd, mae'n amlwg bod y penderfyniadau sydd yn cael eu cymryd heddiw o ddiddordeb hanfodol i ni bobl ifanc, gan mai y ni sydd yn mynd i orfod dioddef unrhyw gamau gwag gan ein cynrychiolwyr mewn llywodraeth.

Mae'n naturiol gofyn pam y dylsai rhywun sydd yn nesu at ddiwedd ei fywyd, sydd efo pensiwn dibynadwy ac wedi gorffen gweithio, gael llais yn ein dyfodol os nad ydi lleisiau'r bobl ifanc fydd yn byw y dyfodol hwnnw yn cael eu cyfri hefyd. Mae Brexit yn enghraifft dda o hyn: mae rhagolygon yn dangos y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn effeithio pobl ifanc llawer mwy na phobl mewn oed. Ond mae dinasyddion yn eu nawdegau yn cael pleidleisio yn yr etholiadau a'r refferenda hyn tra mae'r rhai rhwng un ar bymtheg a deunaw oed – sydd yn mynd i orfod delio efo effeithiau ymarferol Brexit – heb gael unrhyw ddweud yn y penderfyniad. Yn ôl yr ystadegau, mae'n debyg y byddai Prydain wedi pledleisio i aros yn yr Undeb Ewropeaidd pe byddai ieunectid un ar bymtheg a dwy ar bymtheg oed wedi cael yr hawl i bledleisio. Mae hyn yn dangos faint o effaith mae newid yr oedran pledleisio yn gallu ei gael. Fallai bod hynny hefyd yn egluro amharodrwydd rhai gwledydd i newid eu rheolau pleidleisio gan eu bod yn ymwybodol y gallai hynny hefyd newid pwy sydd mewn grym.

Mi fydd y gostyngiad hwn yn yr oedran pledleisio yng Nghymru yn annog pobl ifanc nad ydynt â diddordeb penodol mewn gwleidyddiaeth i feddwl am eu dyfodol ac am broblemau'r byd. Mi fydd yn rhoi ffocws i ni sgwrsio a dadlau am yr etholiadau ac i ddatblygu safbwynt. Bydd hefyd, gobeithio, yn annog ysgolion i ddarparu cyfleoedd addysgol i drafod gwleidyddiaeth fel rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol, ac felly yn debygol o gynyddu cyfranogiad mewn etholiadau.

Yn y cyfnod sydd ohoni, gyda'r problemau difrifol a'r ansicrwydd enbyd sydd yn wynebu'r ddynoliaeth, mae'n bwysig iawn bod pobl ifanc yn cael pob cyfle i ddeall yr hyn sydd yn y fantol heddiw ac effaith hynny ar eu dyfodol. Mae'n gwbl addas hefyd ehangu addysg wleidyddol yn yr ysgolion o ystyried bod gwleidyddiaeth yn mynd yn fwy ac yn fwy cymhleth ac anos ei ddeall a'i ddilyn. Mi fydd hyn yn helpu ieuenctid Cymru ac yn rhoi mantais iddyn nhw – sefyllfa ddiddorol o ystyried bod y rhan fwyaf o wledydd eraill y byd yn parhau i rwystro pobl o dan ddeunaw oed i bleidleisio.




## TREFEURIG



**Priodas aur**
Llongyfarchiadau i Merfyn a Mai Hughes, Trawsnant, Cwmerfyn sydd yn dathlu pen-blwydd priodas aur ar Orffennaf 25. Cofion cynnes oddi wrth y teulu i gyd.

## CAPEL MADOG



**Pen blwydd Priodas Perl**
Llongyfarchiadau i Gareth a Gwladys Evans, Penrhiw, Bont- goch ar ddathlu 30 mlynedd o fywyd priodasol ar 2 Mehefin. Priodwyd nhw yn Horeb, Penrhyn-coch; dymuniadau da ar gyfer y dyfodol.

# LLANDRE

**Gwener Gwyddonol**

Beth sydd gan ddŵr yn llifo o bibell i'w wneud gyda theithio i'r gofod, a phlu brain i'w wneud gyda datgloi cyfrinachau feirysau fel Covid-19? Dyma ddau o'r cwestiynau sydd yn cael eu trafod mewn cyfres o arbrofion gwyddonol fel rhan o Gwener Gwyddonol Eisteddfod Amgen yr Eisteddfod Genedlaethol yn ystod yr wythnosau nesaf.

Ffrwyth gwaith yr Athro Andy Evans, Pennaeth Adran Ffiseg Prifysgol Aberystwyth yw'r arbrofion, sydd wedi eu ffilmio yng ngardd gefn ei gartref yn Llandre, ers dechrau'r cloi mawr.



Mae'r Athro Evans, Cadeirydd Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg yr Eisteddfod Genedlaethol, yn arbenigwr ar ddefnyddiau megis diamwntiau, graffîn a thechnoleg nano, elfenau sydd yn cael eu defnyddio mewn technoleg cwantwm, ffotoneg a chelloedd solar. Mae ei arbrawf cyntaf, Dwysedd Dŵr, sy'n cynnwys arddangosiad ac darlith fer ar y wyddoniaeth, eisoes ar lein, a bydd arbrawf newydd yn cael ei ychwanegu bob bore Gwener am 11 o'r gloch, a hynny tan wythnos draddodiadol y Brifwyl.

Ymhlith y cysyniadau gwyddonol a fydd yn cael eu hesbonio bydd sut mae mesur a chadw amser gan ddefnyddio pendil cloc; disgyrchiant a theithio'r gofod gyda help pibell ddŵr; sut mae rhewlifoedd yn dadlaith ar effaith ar lefel dŵr y môr.

Bydd hefyd edrych ar blu brain i ddeall diffreithiant, cysyniad sy'n ein galluogi i ddarganfod strwythurau defnyddiau ar lefel atomau unigol, ac sydd yn cael ei ddefnyddio er mwyn astudio strwythur feirws Covid-19.

Yn ôl yr Athro Evans, mae modd ail-greu nifer o'r arbrofion hyn gan ddefnyddio pethau cyffredin a geir ym mhob cartref, yn y "dror pob dim".

"Mae'r gweithgareddau sydd fel arfer yn y Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn yr Eisteddfod Genedlaethol wedi ysbrydoli cenedlaethau o blant a phobl o bob oed i arbrofi drwy chwarae ac i ddarganfod y byd o'u cwmpas.

"I wyddonwyr, mae'n bwysig iawn ein bod yn rhannu'n gwaith ymchwil a'n brwdfrydedd, ac mae'n hyfryd gallu gwneud hynny drwy gyfrwng arbrofion syml, hyd yn oedd yn yr ardd. Rwy'n gobeithio'n fawr fod rhywbeth yma at ddant pawb ac y byddant yn help i ni ddysgu am y wyddoniaeth sylfaenol sydd tu ôl i'r darganfyddiadau a'r datblygiadau ddiweddaraf mewn sawl maes, boed hynny'n deithio i'r gofod neu ddeall y defnyddiau diweddaraf sydd yn trawsnewid y byd a'n bywydau bob dydd, a hyn yn oed ychydig am sut y mae gwyddonwyr yn mynd ati i ddeall strwythur feirws Covid-19."

Ymunwch â'r Athro Andy Evans, a'r brain sydd yn gyfeiliant cyson iddo, ar gyfer Gwener Gwyddonol bob bore Gwener am 11, am wyddoniaeth yn yr ardd.

**Ymddiheuriadau**

Dylai enw Llinos Dafis fod wedi ymddangos ar waelod y deyrnged y mis diwethaf i Marian Jenkins.

**Cyfarchion hwyr**


Dymuniadau gorau hwyr i Moss Jones, Tai Gwynion, ddathlodd ben blwydd arbennig ym mis Mai.

# Colofn Edward Llwyd

## Y Barcut Coch

Wel, mi oedd bach o grafu pen y tro yma, roedd gen i bethau i ddweud ond angen llun i fynd efo'r erthygl. Fel mae'n digwydd yn aml ddoth y syniad pan o'n i'n mwynhau paned o goffi a darllen erthygl am sut i dynnu lluniau o adar yn hedfan. Dydw i ddim wedi gwneud llawer o hynny o'r blaen, wedi bod yn ddigon hapus i dynnu lluniau o'r tirlun. Mi wnes i dreulio gweddill y diwrnod yn astudio a gosod y camera yn iawn. Roedd y diwrnod wedyn yn mynd i fod yn sych a phenderfynais fynd i Landdeusant ble maen nhw yn bwydo'r barcut coch. Yn union yn ôl fy arfer ro'n i'n rhy gynnar ond treuliais dri chwarter awr yn mwynhau tawelwch yr ardal.

Doth yr amser a rhois dair punt am fy lle yn y guddfan a gwneud yn siŵr unwaith eto bod y camera wedi cael ei osod yn iawn. Roedd y barcutiaid yn uchel yn yr awyr a'r brain yn eistedd yn y coed, maen nhw i gyd yn gwybod pryd mae amser cinio. Mi wnaeth pethau ddigwydd yn gyflym unwaith ddoth y dyn efo'i bwced o gig,



yn sydyn roedd cwmwl ffyrnig o farcutiaid yn ymladd am y bwyd ac yn troi yma ac acw i osgoi ei gilydd, doedd dim un damwain! Cymerodd dipyn o amser i mi ddod i arfer â dilyn aderyn yn hedfan mor gyflym, a phob eiliad ro'n i'n pwyso'r botwm roedd deg llun yn cael eu tynnu. Erbyn y diwedd roedd 368 o luniau ar y cerdyn, rhan fwyaf roeddwn i'n gallu taflu a dwsin i gadw. Dyma oedd y gorau. Popeth drosodd mewn llai na hanner awr ond ces i hwyl.

Yma yng Nghymru roedd yr ymdrech cyntaf i achub y barcut, yn y 1930au dim ond 20 ohonyn nhw oedd ar ôl ond gyda dyfalbarhad maen nhw dros Gymru i gyd erbyn hyn. Mae rhai o'n hadar ni wedi cael e allforio i Iwerddon felly allech chi weld barcutiaid yn ardal mynyddoedd Wicklow.

Os oes gennych chi siawns i weld y barcutiaid yn cael eu bwydo peidiwch â cholli'r cyfle ond ar eich tro cyntaf peidiwch â mynd â'ch camera, Mwynhewch gyda'ch llygaid!

Dewch efo ni i fwynhau ein cefn gwlad, edrychwch ar ein gwefan cymdeithasedwardllwyd.cymru i weld os ydan ni'n cerdded yn eich ardal yr wythnos yma. Bydd croeso mawr i chi!

**Rob Evans**

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Dwy chwaer ar y rheng flaen**
Llongyfarchiadau cynnes i Ffion Evans, Crud yr Awel, ar raddio ym mis Chwefror ym maes nyrsio ac wedi cael swydd yn adran ddamweiniau Ysbyty Bron-glais. Bu Ffion yn gweithio yn theatr Bron-glais cyn hynny, dymuniadau gorau yn dy swydd newydd. Fel ei chwaer Anna, sy'n aelod o'r heddlu yng Nghaer ers pedair mlynedd, mae'r ddwy wedi bod ar y rheng flaen yn ystod y feirws Covid 19 ac rydym fel ardal yn ddyledus iawn i'r ddwy yma a'u tebyg, wrth iddynt gyflawni dyletswyddau hanfodol ar yr adeg bryderus yma. Rwy'n siwr y byddai Mam-gu a Tad-cu yn falch iawn ohonoch fel mae Mam a Dad wrth gwrs.






**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs. Anne Davies, Maencrannog ynghyd a Delyth ac Iona wrth iddynt golli perthynas agos yng Nghorwen yn ddiweddar - sef Mrs. Blodwen Morris. Cofiwn fel y bu'r plant, Bethan, Iola a Nia dreulio amser yn Maencrannog flynyddoedd yn ôl a mynychu Ysgol Pen-llwyn am ychydig ar ôl colli eu mam, a oedd yn chwaer i Mrs. Davies. Meddyliwn amdanoch fel teulu ac anfonwn ein cofion atynt yng Nghorwen ar yr un pryd.

**Ras Nant yr Arian**
Ar yr 28ain o Fawrth, roedd ràs flynyddol, 'Nant yr Arian Silver Trail', wedi ei threfnu – ràs lwybr hanner marathon i oedolion, a ràs i blant. Yn anffodus, oherwydd y pandemig, bu rhaid canslo'r digwyddiad eleni. Ond, gan fod trefnwyr y ràs eisiau cynnig rhywbeth i'r plant yn ystod y cyfnod anodd hyn, penderfynwyd cynnal cystadleuaeth ysgrifennu stori ar y thema rhedeg - 'Silver Trail's Running Tales'. Byddai pob un o'r ymgeiswyr ifanc yn derbyn crys-t Silver Trail.
Cefais wahoddiad gan y trefnwyr, Karen Kemish ac Ian Brandreth, i feirniadu. Roeddwn



Tomi Jones o Gapel Bangor, yn gwisgo'i grys-t Silver Trail




i wrth fy modd yn cael y cyfle i fod yn rhan o'r gystadleuaeth – ffordd wych o gyfuno tri o fy hoff weithgareddau: ysgrifennu, darllen a rhedeg. Mwynheais ddarllen bob un o'r storïau. Roedd pob stori yn hollol wahanol, yn mynd a fi ar daith o'r pandemig presennol, i wastadeddau gwyllt Affrica, i bentre wedi ei rwygo gan ryfel, i'r Gêmau Olympaidd ac i fydoedd hudol. Roedd pob stori yn dathlu rhedeg mewn ffordd unigryw ac wrth eu darllen, roeddwn i'n ysu i glymu careiau fy nhreinyrs a mynd allan I redeg! Da iawn i bob un o'r ymgeiswyr – gwaith gwych!

**Sharon Marie Jones**

**Ysgol Sul**
Roedd yn bryder i athrawon yr Ysgol Sul nad oeddynt yn cyfarfod y plant yn wythnosol, fel yr arfer, oherwydd y sefyllfa ar y foment, ond erbyn hyn, drwy garedigrwydd ein Gweinidog, caiff yr Ysgol Sul ei chynnal ar Zoom bob bore Sul am hanner awr wedi deg o'r gloch.

Gan fod hyn yn newydd i bob un, swil iawn oedd y plant i ymuno ar y cychwyn ond rwy'n siwr fel y dont i arfer, y byddant yn elwa o waith caled Dr. Watcyn James ar eu cyfer yn wythnosol. Diolch yn fawr iddo am ei lafur diflino wrth baratoi ar ein cyfer ninnau oedolion drwy fyfyrdodau ar y Sul ac yn yr wythnos, heb sôn am ei gyfraniadau gwerthfawr fel Golygydd *y Goleuad* bob wythnos.

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau i Angharad - merch Richard a Rhiannon Edwards, Stad Pen-llwyn. Mae Angharad wedi dyweddïo yn ddiweddar i Mathew Hughes, wedi cwrdd yn y Brifysgol chwe mlynedd yn ôl. Athrawes yw Angharad yn ysgol Rhydypennau, a Mathew yn dysgu yn ysgol Gyfun Pen-glais. Y maent yn golygu byw yng Nghapel Seion, ac wedi prynu tŷ yno yn ddiweddar. Dymuniadau gorau a phob bendith i'r ddau yn y dyfodol.

# GOGINAN

**(Ymddiheuriadau – diflannodd y newyddion yma o rifyn Mai lle dylai fod wedi ymddangos)**

**Brechlyn**
Braf a balch yw'r wybodaeth fod Sam Morys, Tegfan yn un o aelodau y tîm ym Mhrifysgol Rhydychen sydd yn gweithio yn caled i drio darganfod brechlyn i'r Covid 19. Gobeithio y daw canlyniadau addawol yn fuan.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn gyda Tim Griffiths a'r teulu, Welsh Cottage ar farwolaeth ei fam Mrs May Griffiths, Rhiw Mynach a fu farw yn ystod mis Ebrill yn 88 mlwydd oed.

**Pen blwydd Hapus**
Dymuniadau gorau i'r Parchg Ifan Mason Davies, Rhiwfelen ddathlodd ei ben blwydd yn bedwar ar hugain ar Fai 15.

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mán
01970 820149
07980 687475

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# Atgofion 1982

**Gofynnwyd i'r awdures Lleucu Roberts am ei hatgofion yn ennill Cadair Eisteddfod yr Urdd 1982.**

Amser maith, maith yn ôl, yn yr oes gyn-ddigidol, cyn diwedd rhyfel cythreulig Thatcher a'i ffyliaid dros y Malfinas, daeth cadair i'r tŷ. Roedd arni blac bach ar y tu blaen yn dweud: *Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Llŷn ac Eifionydd, Pwllheli 1982.*

Un werdd oedd hi, nid un bren fel y gwelwch chi'n aml, ac roedd hi wedi'i gorchuddio gan ddefnydd melfedaidd: y gwyrdd 'na sy rhwng llwyd a *beige*. Un fach isel oedd hi, cadair fwydo babi yn ôl rhai, cadair esgor yn ôl eraill. Mi wnes y naill wrth eistedd ynddi, er nad y llall.

Am flynyddoedd mawr, chafodd neb eistedd ynddi wedi i'r goes flaen chwith dorri drwy ryw anffawd nad oes gen i affliw o gof beth oedd e (coes chwith wrth edrych arni, nid wrth eistedd ynddi, gan y byddai'r sawl a geisiai wneud hynny'n teimlo'i din yn bur agos i'r llawr pe bai'n mentro). Cafodd fod felly, yn llai defnyddiol nag unrhyw gelficyn arall yn y tŷ a phrin yn addurn yn y gornel tra tyfodd y plant yn dalach a ninnau'n hŷn o'i chwmpas.

Tan eleni, pan benderfynwyd bod rhaid ei thrwsio neu ei thaflu.

Trwsio enillodd. A chafodd dendans gan ddewin a roddodd ail fywyd – a choes newydd – iddi. Gan fod angen gosod defnydd newydd ar ei sedd yn y broses, a'r union wyrdd heb fod yn bodoli mwyach, cafodd sedd newydd goch yn yr un defnydd melfedaidd â'i chefn gwyrdd. Gallwn fod wedi ei throi'n gadair goch-i-gyd, ond rywsut, doeddwn i ddim am golli'r gwyrdd yn llwyr. Ta beth, efo clustog wen, roedd hi'n faner Cymru a bathodyn yr Urdd yn y lolfa.

Wrth eistedd ynddi, ambell waith dwi'n ail-fyw'r 'sefyll ar ganiad yr utgyrn' a'r trôma o deimlo




llygaid pawb arna i. Wythnosau'n gynt, ces alwad ffôn gan Alun Jones, fy athro Cymraeg ar y pryd, yn rhoi'r newydd i mi y byddai'n rhaid i mi fynd i Bwllheli ddiwedd mis Mai i dderbyn cadair. Dechreuodd y nyrfs ar unwaith, dwi'n cofio hynny. Yr wythnos wedi'r Eisteddfod, byddai'r Pab yn dod i Gymru, a byddai llygaid y byd arno, a dyna lle roeddwn i'n cnoi fy ewinedd i'r byw wrth feddwl am orfod codi o flaen pawb yn y pafiliwn.

Ond erbyn hyn, anaml fydd y gadair yn fy nghario i nôl dros yr holl flynyddoedd. Heddiw, a minnau bron yn fam-gu bellach, mae'n braf cael eistedd ynddi yn ei gwisg newydd i wylio Eisteddfod T. Teimlaf yn emosiynol wrth feddwl am yr holl ymdrech ac ymroddiad a aeth tuag at wneud i honno ddigwydd mewn cwta wythnosau gan arwyr digamsyniol yn rheng flaen brwydr yr iaith yng nghyfnod y Cofid.


Da gen i fod yr hen gadair yno, heb ei danfon i gwlag y safle ailgylchu, i atgoffa am adeg bur wahanol. Ac mae iddi bedair coes unwaith eto, yn barod i oroesi sawl blwyddyn arall o fynd a dod o'i chwmpas, o Eisteddfodau, ffyliaid a phlâu, a dyn a ŵyr beth.

**Lleucu Roberts**

## CLARACH / LLANGORWEN

**Dal i seiclo!**

Mae Gruff Lewis yn ysu i gael seiclo eto – yn y cy-famser mae yn reidio yn braf gyda channoedd o rai eraill ond ochr yn ochr â Geraint Thomas



SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

# PENRHYN-COCH

**Cymorth Cristnogol**
Oherwydd y sefyllfa bresennol nid oedd casglu at Cymorth Cristnogol yn ôl yr arfer yn bosibl. Penderfynwyd manteisio ar ddull oedd gan yr elusen o gasglu trwy Just Giving a chrëwyd tudalen i'r perwyl gan ein Trysorydd Eleri James. Hoffai'r Trefnydd, Ceris Gruffudd, ddiolch i Eleri am ei hamynedd yn gosod hyn i fyny a hoffai'r ddau ohonynt ddiolch i bawb gyfrannodd fel hyn; hefyd i drysoryddion Eglwys St Ioan a Horeb – R Williams Jones a William Howells am fod yn barod i dderbyn sieciau gan rai nad oedd yn gallu cyfrannu trwy'r we. Cyfanswm y casgliad hyd yn hyn yw £1,335 ond mae y dudalen ar agor tan ddiwedd Mehefin a modd cyfrannu hyd at hynny.

**Eglwys St Ioan**
Dymuna wardeiniaid, swyddogion ac aelodau Eglwys St Ioan ddatgan eu diolch I Mr Kevin Evans a Mr Philip Jones am y gwaith ardderchog a wnaethant yn ddiweddar i dorri'r glaswellt a thwtio oddi amgylch y beddi yn y fynwent. Gresyn nad oes gwasanaeth yn yr eglwys er mwyn i bawb gael edmygu y gwaith.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Emma a Dafydd, 4b Ger-y-cwm, ar enedigaeth -mab Glyn Jones.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Elin Haf a'r teulu, Dôl Helyg, ar farwolaeth ei hewythr - Cen Williams, Caerdydd. Roedd yn gartwnydd poblogaidd – yn cyfrannu i *Golwg* a'r *Dinesydd* – papur bro Caerdydd a bydd ei lun ar record Cwm-Rhyd-y-Rhosyn yn gyfarwydd i ddarllenwyr.

**Oedfa'r Bore**
Y Parchg Judith Morris fydd yng ngofal oedfa'r bore ar S4C am 11.00 fore Sul 21 Mehefin.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â'r Parchg Peter Thomas a'r teulu ar farwolaeth ewythr i Peter o Lansadwrn.

**Diwedd y Tymor**
Mae Tymor Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch, fel pob clwb arall, wedi gorfod gorffen yn gynnar oherwydd y pandemic Covid 19 gyda'r Roosters yn gorffen yn yr 8fed safle yng Nghynghrair J D Cymru North - cyflawniad arbennig gan dîm Gari Lewis a chlod mawr iddo ef, ei dîm hyfforddi a'r holl chwaraewyr.

Nid yw CBDC (FAW) eto wedi nodi pryd fydd y tymor newydd yn dechrau na hyd yn oed pryd all unrhyw ymarfer ddechrau ac hyd yma nid ydynt wedi gwneud unrhyw benderfyniadau ynglyn â pha glybiau fydd yn cael dyrchafiad na pha glybiau fydd yn mynd lawr i gynghrair is.

**Cyngor Cymuned Trefeurig**
Oherwydd Covid 19 nid yw'r Cyngor Cymuned wedi cyfarfod ers mis Chwefror. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi codi baner ar y ffordd i mewn i Benrhyn-coch i ddiolch i weithwyr y Gwasanaeth Iechyd a gweithwyr hanfodol eraill am eu holl waith yn ystod yr argyfwng presennol. Gwnaed hyn am fod nifer o bobl yr ardal yn gweithio yn y gwasanaethau hyn, ac roedd hon yn un ffordd fach o ddangos diolchgarwch iddynt. Diolch i Gwenan Price am ddod â'r syniad i sylw'r Cyngor, i Shân James am drefnu ac i Seren Signs am wneud y faner.

Fe wyddom mai cymharol ysgafn fu effaith yr haint ar Geredigion hyd yma, o'i gymharu a siroedd gwledig cyfagos, a mawr obeithiwn y bydd yn parhau felly. Mae'r Cyngor Sir wedi gweithredu'n brydlon ac effeithiol, a mawr yw ein diolch iddynt. Fe warchodwyd y cartrefi gofal yn fuan iawn unwaith y caed sôn am yr haint, ac fe wnaeth y Cyngor hefyd sefydlu trefn o olrhain cysylltiadau y bobl oedd yn dioddef o'r feirws er mwyn eu cael hwythau i ynysu rhag i'r haint ledu ymhellach.

## Rheolwr

Gall CPD Penrhyn-coch gyhoeddi fod Gari Lewis wedi penderfynu gorffen fel Rheolwr ar ôl 10 tymor yn ei ofal a chymryd hoe o Reoli. Fe fydd, er hynny, yn dal i helpu y Clwb mewn unrhyw fodd y gall ac mae'r Clwb yn gwerthfawrogi ac yn deall ei benderfyniad.

Daeth Gari yn ôl i'r Clwb yn nhymor 2008/09 fel Capten o dan reolaeth Gavin Allen ac yna daeth yn Reolwr yn 2011/12 ar ôl i Kevin Jenkins gymeryd swydd Cadeirydd y Clwb.


Fe fydd Gari yn anodd i'w ddilyn gan iddo dywys y Clwb yn llwyddiannus yn y canlynol:
Cwpan CWFA yn 2011/2012
Cwpan Cynghrair Spar 2014/2015
Cynghrair Spar yn 2015/2016
Cwpan Cynghrair Haf Spar 2015/2016 a 2016/2017.

Mae ei ffordd o arweinyddiaeth a chefnogaeth yn golygu ei fod yn disgwyl dim llai na 100% gan y rhai sydd yn chwarae iddo. Dywedodd Cadeirydd y Clwb Kevin Jenkins

"Mae Gari yn ddyn anhygoel ac yn ffrind da ac rydym yn diolch yn fawr iddo am ei ymroddiad a'i ymdrech fel Chwaraewr a Rheolwr. Mae y Clwb yn bopeth iddo ac mae yn llwyr haeddu amser allan. Gobeithir cyhoeddi ei olynydd yn fuan"

Dydd Mawrth 16 Mehefin cyhoeddwyd mai Aneurin Thomas (Freddie) fydd ei olynydd. Mae Aneurin wedi ymddangos dros 400 gwaith yn chwarae gyda thimau Llanidloes, y Seintiau Newydd, y Drenewydd ac Aberystwyth. Mae hefyd wedi chwarae yn Ewrop ac wedi cynrychioli Cymru ar lefel lled broffesiynol.





Lluniau: Glenys Morgan

Afon Clarach wedi sychu yng Nghoedwig Gogerddan ddiwedd Mai.

## DOLAU

**Geni wyres**
Llongyfarchiadau i Beryl a John Hughes ar enedigaeth wyres ddechrau Mehefin. Ganwyd merch - Gwenno Dyfed i Catrin Dafydd a Dyfed ar 2 Mehefin yng Nghaerdydd.





Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

**CYSTADLAETHAU LLENYDDOL i DDYSGWYR**

**I ddysgwyr 16 oed a thano:**
Portread neu Adolygiad o lyfr/CD/raglen deledu (dim mwy na 200 gair)

BEIRNIAD: Y Prifardd Robat Powel
GWOBRAU: 1af £30
2il £20
(yn y ddwy gystadleuaeth)

**I ddysgwyr dros 16 oed:**
Dau ddarn o waith gwreiddiol mewn ffurfiau gwahanol e.e llythyr, stori, ysgrif, cerdd, ymson neu ddeialog


*Cystadlaethau agored i unrhyw un sydd wedi dysgu'r Gymraeg fel oedolyn hyd at ddosbarthiadau hyfedredd. Hefyd yn agored i'r rhai sydd yn, neu wedi astudio Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol uwchradd. Nid yw'r cystadlaethau yn agored i'r rhai sydd wedi dilyn cwrs gradd yn y Gymraeg neu unrhyw radd drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhannol neu'n llwyr, nac i'r rhai sy'n gweithio fel tiwtor Cymraeg.*


**DYDDIAD CAU: Gorffennaf 12fed, 2020**

***Danfoner y gwaith, gyda ffugenw arno, ac enw a manylion cyswllt mewn amlen arall gyda'r gwaith, at Shân Crofft (Swyddog Datblygu), 17 Rennie Street, Riverside, Caerdydd CF11 6EG neu gellir anfon y cyfan drwy ebost shan@steddfota.org***


## Dihangfa mewn darllen

O far y Llew Du yn Aber y mae 'Plonc' (neu ddiodydd meddal a phaneidiau) ein Clwb Llyfr, Clonc a Phlonc yn arfer cael ei weini yng nghyfarfodydd misol ein clwb llyfrau, gan mai'r dafarn hyfryd honno yw'n cartref fel clwb ers ein sefydlu yn ôl yn 2012. Ond yn sgîl y cyfyngu mawr ar ein bywydau ar hyn o bryd, bu'n rhaid hepgor yr elfen honno o'n trefniadau, fel cynifer o bethau eraill yr ydym wedi gorfod troi cefn arnynt am y tro. Braf dweud, fodd bynnag, diolch i Zoom a sgiliau technegol un o'n haelodau ffyddlon, Gwenan Creunant, bod y 'Llyfr' a'r 'Clonc' yn enw'r clwb yn dal i fynd o nerth i nerth. Rydym wedi cynnal dau gyfarfod dros y we hyd yma, ac er nad yw hynny'n bosibl i bawb am ba reswm bynnag, y mae, ar y llaw arall, yn fwy cyfleus i eraill, gan nad oes rhaid symud modfedd o'r tŷ.







Braf iawn yw cael cynnau'r cyfrifiadur, clicio i ymuno â'r cyfarfod a gweld dwsin a mwy o wynebau annwyl yn llenwi'r sgrin. Yn ogystal â dewis nofel Gymraeg i'w thrafod bob mis (*Wal* gan Mari Emlyn ar gyfer mis Mehefin, a *Filò* gan Siân Melangell Dafydd ar gyfer y cyfarfod nesaf fis Gorffennaf), mae wedi bod yn ddifyr iawn clywed hefyd pa lyfrau neu ddigwyddiadau llenyddol eraill sydd wedi denu sylw'r aelodau yn ystod yr wythnosau a'r misoedd diwethaf. Bu sawl un yn mwynhau sgyrsiau ar-lein yng Ngŵyl y Gelli yn ddiweddar, ac mae arlwy wythnosol yr Eisteddfod Genedlaethol, AmGen, hefyd wedi denu. O ran y darllen, mae sefyllfa pawb yn wahanol, wrth gwrs – ambell un yn mwynhau agor y cloriau er mwyn llenwi oriau tawel, eraill yn gwrando ar lyfrau llafar neu'n darllen i aelod arall o'r teulu, ac ambell un arall wedyn â'r pentwr o lyfrau sy'n apelio yn tyfu, tyfu, tyfu wrth ochr y gwely a phrysurdeb cyfnod y Covid yn eu cadw rhag ymgolli ynddynt ar hyn o bryd.

Wedi pob cyfarfod byddaf yn ceisio llunio rhestr i'w rhannu o'r llyfrau a argymhellwyd, yn rhai Cymraeg a Saesneg, ac mae'n gasgliad hir ac eclectig sy'n adlewyrchu gwahanol ddiddordebau ein haelodau – yn storïau ditectif, cofiannau llenyddol, nofelau hanesyddol a llawer mwy. Ond os oes un gyfrol sydd wedi'i chrybwyll dro ar ôl tro dros y misoedd diwethaf ac wedi creu argraff arhosol ar sawl un ohonom, yna *On the Red Hill* gan Mike Parker yw honno.

Chawn ni ddim swper haf gyda'r clwb eleni, yn ôl ein harfer, ond fe ddaliwn ati i gwrdd bob mis ar y sgrin, a hynny am y gwmnïaeth a'r glonc. Diolch i'r holl aelodau am eu cefnogaeth annwyl ac i'r siopau llyfrau lleol a gwefan Gwales sy'n gwneud yn siŵr bod y llyfrau'n dal i'n cyrraedd, a ninnau yn ein tro yn falch o'u cefnogi. Os hoffech ymuno â'n rhestr ebost er mwyn cael rhagor o fanylion, croeso mawr – ebostiwch Nia Peris ar clwbllyfrcloncaphlonc@gmail.com

**Nia Peris**


**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

# Ysgol y Streic

*Nid oedd hawl i grwydro'r Pasg hwn, a does wybod pryd y cawn ni ein traed yn rhydd nesaf. Ond dyma ichi ysgrif fach am le y deuthum ar ei draws pan oeddwn ar wyliau dro'n ôl.*



Rhyw ddeuddeng mlynedd yn ôl, aeth dau gyfaill a minnau am dro i Norfolk, gan aros yn Norwich. Mae Norfolk yn wlad braf iawn, ac mae ganddi o leiaf ddau beth yn gyffredin â Môn lle'm magwyd, sef ei bod yn wlad isel gydag awyr eang, ac hefyd mae'n wlad amaethyddol. Wrth chwilio am lefydd i ymweld â nhw, deuthum ar draws hanes diddorol iawn, hanes sydd wedi dal fy sylw byth ers hynny, sef hanes y 'Strike School' yn Burston, pentref ryw 20 milltir i'r de o Norwich, yn agos i dref fechan Diss. A dyma'r hanes.

Ddechrau'r ganrif ddiwethaf roedd amgylchiadau gweision ffermydd yn Norfolk yn wael iawn. Yn wir mewn rhai llefydd doedd y gweision ddim hyd yn oed yn cyflogi am dymhorau sefydlog, dim ond yn gorfod troi i fyny'n ddyddiol gan obeithio fod gwaith ar gael, gwaith 'zero hours' mewn geiriau eraill. (Yr arferiad ym Môn oedd cyflogi am chwe mis, sef tymor yr haf neu dymor y gaeaf, ond wrth gwrs roedd rhai yn aros yn yr un lle am dymhorau lawer. Rwy'n cymryd mai hyn oedd yr arferiad yng Ngheredigion hefyd.)


Yn Ebrill 1902 fe gyrhaeddodd pâr priod bentref Wood Dalling yn Norfolk, pentref ryw 20 milltir i'r gogledd o Norwich; roedd y wraig, Annie Higdon yn 37 oed ac wedi cymhwyso'n brifathrawes ysgol gynradd, a'i gŵr, Tom Higdon, yn 32 oed ac wedi cymhwyso'n athro, ac roedd y ddau i fod yn gyfrifol am yr ysgol gynradd leol. Un o Wlad yr Haf oedd Tom, a'i wraig o Swydd Gaer ac roeddynt wedi cyfarfod yn Llundain. Roedd y ddau ohonynt ar dân dros wella'r byd, yn sosialwyr Crisnogol oedd yn credu'n angerddol mewn addysg ac mewn gwella cyflwr byw pobl gyffredin. Peth diweddar oedd addysg orfodol ac mewn gwlad geidwadol fel Norfolk doedd pawb ddim yn rhoi llawer o bwys ar beth o'r fath. I'r ffermwyr cefnog ac i'r person plwyf y peth pwysicaf oedd fod pethau yn parhau fel yr oeddynt a bod pawb yn sylweddoli beth oedd eu lle mewn cymdeithas. Disgwylid i'r rhan fwyaf o'r bechgyn fynd yn weision ffermydd, os na allent fynd yn grefftwyr, a'r rhan fwyaf o'r merched yn forwynion.

Buan yr aeth hi'n ddrwg rhwng yr Higdons a llywodraethwyr yr ysgol. Roedd Tom ac Annie am wella cyflwr yr ysgol – cael gwared â thamprwydd, a gwneud y lle'n fwy golau fel y byddai'n fwy addas ar gyfer dysgu'r plant. Hefyd roedd y ddau'n ddig iawn pan fyddai'r plant yn colli dyddiau lawer i fynd i weithio ar y ffermydd pan oedd hi'n brysur, a bu hyn yn achos sawl ffrae rhwng yr athrawon a'r llywodraethwyr. Doedd y rheini ddim yn hoffi gweld eu hawdurdod yn cael ei herio. Ar ôl sawl helynt fe roddodd y Cyngor Sir ddewis i'r Higdons, cael eu diswyddo neu symud i ysgol arall. Felly y bu i'r ddau gyrraedd Burston yn Ionawr 1911.

Dechreuodd pethau fynd o chwith yma eto, am yr un rhesymau â chynt. Roedd rheithor newydd wedi'i benodi yn Burston tua'r un adeg, y Parchg Charles Eland, ac ef oedd cadeirydd llywodraethwyr yr ysgol. Roedd o'n credu fod safle traddodiadol y person plwyf wedi cael ei danseilio gan ddatblygiadau diweddar megis addysg i bawb a chyrff fel y cynghorau plwyf oedd newydd eu sefydlu, ac roedd ef am fynnu ei awdurdod. Mae'n werth nodi fod ganddo gyflog blynyddol o £580 a rheithordy cyffyrddus, tra oedd y gweision ffermydd yn ennill tua £35 y flwyddyn ac yn byw mewn bythynnod bychain. Ffermwyr oedd y rhan fwyaf o lywodraethwyr yr ysgol; tenantiaid oeddynt ar y cyfan gan fod y rhan fwyaf o'r tir lleol yn eiddo i gwmni bragu mawr.

Roedd Annie'n athrawes ragorol, ac yn benderfynol o wneud y gorau a allai dros y plant oedd dan ei gofal; yn sicr doedd hi ddim yn fodlon plygu i



awdurdod os oedd hi'n credu fod y plant yn cael cam. Yn ogystal â'i waith fel athro, roedd Tom yn weithgar iawn yn annog y gweithwyr amaethyddol i sefyll dros eu hawliau, ac i geisio gwella eu cyflwr. Yma, fel yn Wood Dalling, roedd yn weithgar gydag Undeb y Gweithwyr Amaethyddol, ac fe ellwch feddwl nad oedd hynny'n ei wneud yn boblogaidd gyda'r ffermwyr lleol. Yn 1913 fe gafwyd etholiadau ar gyfer y Cyngor Plwyf. Fe wnaeth Tom ei hun sefyll ac annog llawer o'r gweithwyr i sefyll hefyd. Y canlyniad oedd fod Tom ar dop y pôl, a phwy oedd ar y gwaelod a heb ei ethol ond neb llai na'r Rheithor. Mae'n siŵr ei fod yn filain.

Ond, wrth gwrs, y Rheithor a'r ffermwyr oedd yn parhau i fod yn llywodraethwyr yr ysgol, ac fel y bu yn Wood Dalling mynd o ddrwg i waeth a wnaeth pethau yn Burston hefyd. Cafwyd sawl cwyn yn erbyn yr Higdons – un oedd fod Annie wedi cynnau tân yn yr ysgol heb ganiatâd, er bod angen y tân i sychu dillad y plant ar ôl iddynt gerdded i'r ysgol yn y glaw. Fe ystyriodd Awdurdod Addysg Norfolk y cyhuddiadau, ond yn y diwedd dim ond un gŵyn a gafwyd yn ddilys ganddynt, sef fod Annie wedi bod yn anghwrtais iawn gyda'r llywodraethwyr ('gross discourtesy'). Ond roedd hynny'n ddigon i gyfiawnhau diswyddiad yn llygad yr awdurdod, a chafodd Tom ac Annie rybudd i ymadael â'r ysgol ddiwedd Mawrth 1914.

Pan ddaeth 1 Ebrill, fe gyrhaeddodd y staff newydd yr ysgol ond doedd yr un o'r plant yno am 9.00. Yn fuan fe glywyd mwstwr y tu allan i'r ysgol ar y grîn; yno'r oedd y plant gyda phlacardiau a chwibanau, ac i ffwrdd â nhw rownd y pentref gyda sŵn a miri. Pan gyrhaeddon nhw'n ôl i ganol y pentref, fe sefydlon nhw ysgol yno mewn pabell, gyda Tom ac Annie'n dysgu'r plant.

Fe ymladdodd yr awdurdodau wrth gwrs. Gwysiwyd 18 o'r rhieni i'r llys ynadon lleol am beidio ag anfon eu plant i'r ysgol, a'u dirwyo. Ond fe wnaed casgliad y tu allan i'r llys i glirio'r dirwyon. Nid aed ymlaen â gwysion wedi hynny – gwelodd yr awdurdodau y byddai hynny'n annoeth o ystyried cryfder y teimladau a'r ffaith fod y rhieni'n anfon eu plant i ysgol o'u dewis o dan athrawon cymwysedig. Fe gollodd rhai o'r gweision eu gwaith ar y ffermydd er mwyn rhoi pwysau arnynt i newid. Hefyd, roedd rhai o'r gweithwyr wedi arfer cael hawl i ddefnyddio tir oedd yn eiddo i'r eglwys ar gyfer codi tatw a llysiau. Fe gawsant rybudd i adael ac fe ddifethwyd y cnydau oedd yno'n barod. Dyna i chi beth melltigedig i'w wneud i bobl dlawd.

Aeth sôn am yr helynt ar led, ac fe ddechreuodd yr undebau llafur godi arian i helpu'r pentrefwyr. Hefyd, yn Awst 1914 fe ddaeth y Rhyfel Byd Cyntaf, ac aeth llaweroedd o ddynion ifanc i ffwrdd i'r fyddin. Felly roedd y ffermwyr angen gweithwyr gan fod y llywodraeth am iddynt gynyddu eu cynnyrch; o ganlyniad doedd gwaith ar y ffermydd ddim yn anodd i'w gael, ac roedd hi'n anos dial ar y rhieni anhydrin.

Yn fuan fe symudwyd yr ysgol o'r babell i hen weithdy saer a oedd yn wag. O'r 72 o blant oedd yn ysgol y pentref ar y pryd, fe aeth 66 ohonynt i'r ysgol newydd, Ysgol y Streic, gan adael dim ond llond llaw yn ysgol y pentref. Yn ystod y tair blynedd nesaf fe godwyd arian trwy Brydain ar gyfer yr ysgol, yn bennaf gan y mudiad llafur. Erbyn 1917 roedd ganddynt ddigon i godi adeilad parhaol; agorwyd yr ysgol yn swyddogol ar 13 Mai 1917 gan Violet Potter, y plentyn oedd wedi arwain y streic yn 1914.

Fe barhaodd y streic yn hir iawn, yn wir am chwarter canrif. Bu farw Tom yn 1939, ac ni allai Annie gynnal yr ysgol ar ei phen ei hun, a daeth yr ysgol i ben. Bu farw Annie hithau yn 1946, ac mae'r ddau wedi'u claddu mewn dau fedd wrth ochr ei gilydd ym mynwent yr eglwys, dros y clawdd o Ysgol y Streic. Erbyn y tridegau roedd y teimladau wedi lliniaru rywfaint; yn un peth roedd rheithor callach wedi cyrraedd y pentref yn 1920, ac fe fagwyd perthynas eithaf cyfeillgar rhwng y ddwy ysgol. Ond hyd yn oed mor ddiweddar â 1930 roedd o leiaf hanner y plant lleol yn mynd i Ysgol y Streic.

Erbyn heddiw mae'r ysgol yn eiddo i ymddiriedolaeth ac yn cael ei chynnal fel amgueddfa. Ers 1984 mae'r undebau llafur wedi bod yn trefnu rali flynyddol yn y pentref ar y dydd Sul cyntaf ym mis Medi i sicrhau nad yw'r hanes yn mynd yn angof. Os byddwch chi'n mynd i Norfolk ryw dro, ceisiwch gyfle i fynd i weld Ysgol y Streic.

Bûm yn meddwl tipyn pam fod yr hanes wedi gafael ynof. Yn un peth, gweision ffermydd a thyddynwyr oedd fy hynafiaid innau, fel hynafiaid llawer ohonom, a does dim amheuaeth iddynt gael llawer o gam. Ond mae'r hanes yn un cadarnhaol iawn hefyd: dyna i chi Tom ac Annie, dau yn dewis ymdrechu'n galed dros bobl eraill pan allent fod wedi cael bywyd llawer rhwyddach, ac wedyn mae gennych chi deyrngarwch y bobl i'r ddau athro dros flynyddoedd lawer. Roedden nhw'n gwerthfawrogi llafur ac aberth Tom ac Annie drostyn nhw, a wnaethon nhw ddim troi cefn arnynt. Mae'n hanes i ysbrydoli dyn.

**Richard Owen**


**Eisiau miliwn o siaradwyr Cymraeg yfory?**

**Ymunwch â Chymdeithas yr Iaith heddiw.**

**cymdeithas.cymru/ymaelodi**
**post@cymdeithas.cymru**
**01970 624501**

# Bardd y mis

Fel y crybwyllwyd yn Nhincer Mai, Anwen Pierce oedd Bardd y Mis Radio CYmru a welwyd cerdd o'r heiddo. Dyma un arall o'r cerddi ddarllenodd ar raglen Geraint Lloyd; cerdd ysgafn - sef parodi o 'Colli Iaith' Harri Webb.

Colli sioeau a steddfodau,
colli ymarferion corau,
colli crwydro rownd y siopau,
ac yn eu lle cael drws 'di cau.

Ond caf fod, tan amser cinio
mewn pyjamas wrth i'm weithio,
clywed Geraint ar y radio,
mentro i'r ardd a mynd am dro.

Troi fy llaw at drwsio'r ferfa,
darllen *War and Peace* – a'i gwpla,
ac er dysgu chwarae'r tiwba
wna i fyth pobi torth fanana ...

A thrwy'r cyfan, er y gofid,
mae'n cymdeithas wedi newid;
gyda'n gilydd daw cadernid
a Chymru gyfan yn cydsymud.

Roedd ganddi hefyd englyn i'r gân 'Safwn yn y Bwlch', Hogia'r Wyddfa, sydd wedi dod yn rhyw fath o anthem dros gyfnod y cloi:

Oes o alaw yw'r seiliau – a'n huno
   wna meini eich tonau;
  criw o fois, chi sy'n cryfhau
  trwch y gaer trwy eich geiriau.

Ac yn olaf dyma englyn yn dathlu camp Mair Nutting, Tal-y-bont:

Mair a'i dawn yw'n Maradona – daw gwên
   o weld y gic berta',
  a'r felan a ddiflanna
  yn annel ddel ei gôl dda.

Diolch i Anwen am rannu y rhain.




# Gêmau Plant

Mae chwarae plant wedi newid a datblygu yn y dyddiau digidol hyn – mae'r rhyngrwyd yn eu galluogi i chwarae gemau gyda'u ffrindiau heb adael y tŷ, neu hyd yn oed godi o'r soffa. Ond mae 'na le o hyd i'r gêmau traddodiadol, p'un ai yn yr ardd, yn y parc, neu ar iard yr ysgol – d'oes dim yn well na chlywed chwerthin hapus plant yn cael hwyl yng nghwmni ei gilydd yn yr awyr iach.

Dyma flas ar rai o'r gêmau traddodiadol poblogaidd sydd wedi'u cofnodi yn y Geiriadur.

Un o'r hen ffefrynnau yw **chwarae cwato** neu guddio. Beth yw hwnnw, medd rhai ohonoch? Efallai eich bod yn ei adnabod yn well wrth un o'r enwau canlynol: **micymgudd**, **chwarae whic whiw**, **cwat a chwiw**, **cŵn cadno**, **chwiw mig**, **sbei**, **chwarae mig**, **licaloi**, neu, yn Saesneg, 'hide-and-seek'.

A fu rhai ohonoch erioed yn **chwarae London**? Neu efallai mai **cicston**, **chwarae ecsi**, **poitsh** neu **sgotsh** oedd eich enw am 'hopscotch'.

Mae cofnod yn y Geiriadur am 'chware cat', sef gêm o daro neu fatio darn o bren (y 'gath') i bellter am bwyntiau, yn dyddio o'r 16g. Mae'r gêm yn cael ei hadnabod hefyd fel **catio**, **chware'r gath**, **chwarae'r gath ddwy gynffon**, **chwarae pren a chati**, a **pegi**. 'Tip-cat' yw'r enw Saesneg amdani, a thybed a oes rhai ohonoch erioed wedi ei chwarae?

Beth am 'leap-frog'? Yn ôl y Geiriadur, adnabyddir y gêm fel **chwarae donci mul**, **chwarae ffwdít**, **llam llyffant**, **naid y ffroga**, **chwarae moch duon**, **neidio caseg felen**, neu **neidio mulod**. Beth oedd eich enw chi am y gêm?



Mae'n ddiddorol darganfod yn y Geiriadur bod chwarae pêl-droed yn cael ei adnabod yn y 17-18g. fel chwarae **pêl ddu.** Nid chwarae ffwtbol fel yr ydym yn ei adnabod heddiw wrth gwrs, ond rhyw ffurf hanesyddol o'r gêm boblogaidd a oedd weithiau'n eitha peryglus, yn ôl yr hanes! Cofiwch, mae 'na nifer fawr o bethau diddorol eraill i'w darganfod drwy bori yn y Geiriadur. Ewch i: http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html

Hoffem glywed eich enwau lleol chi am y gêmau yr ydych yn cofio eu chwarae yn eich plentyndod, i gael ychwanegu at ein casgliad. Medrwch gysylltu â ni drwy ein gwefan, ar e-bost (gpc@geiriadur.ac.uk), neu wrth ysgrifennu at:

*Geiriadur Prifysgol Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH*



# Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont

Cawsom dri mis prysur ar ddechrau'r flwyddyn gyda'r clwb yn cynnal ei ginio blynyddol yng Ngwesty'r Marine Aberystwyth cyn cystadlu'r diwrnod canlynol yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus blynyddol y Sir yn Felin-fach.

'Roedd ganddom ddau dîm yn yr oedran Dan 14 oed a gafodd ei hyfforddi gan Rhian Glan'rafon. Daeth Tîm A Tal-y-bont yn gyntaf am yr ail flwyddyn yn olynol yn y sir - sef Elain Tannat, Elen Madrun ac Oisin Pennant. Yr oedd Llio Tannat, Lois Pant y Peran a Caoimhe Melangell yn nhîm B Tal-y-bont a daeth Lois i'r brig fel y siaradwraig a chadeirydd gora dan 18 oed gydag Oisin yn gydradd ail am siarad ac yn drydydd fel cadeirydd. Daeth Catrin y Fet yn drydedd yng nghystadleuaeth y rhai dan 26 oed fel rhan o dîm 'Mics' o dri chlwb. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd.

Ym mis Chwefror, bu cryn ymarfer ar gyfer cystadleuaeth Drama y Sir ac er na wnaethom ddod i'r brig eleni, cafwyd dipyn o hwyl yn ymarfer a daeth Lois Pant y Peran yn drydydd dan 18 oed yn y categori action. Buom yn perfformio'r ddrama gyda Chlwb Trisant yng Nghapel Bangor ac yna yn Nhal-y-bont efo Clybiau Tregaron a Llanddeiniol. Diolch i Sion Pennant am hyfforddi'r criw drama ac i Cartin y fet am sgwennu'r ddrama.

Daeth bwrlwm y cystadlu i ben yn sgîl y clo mawr a'r Covid 19 yn niwedd Mawrth ac ni fydd Rali, mabolgampau na'r Sioe Frenhinol eleni. Ond, daeth un o arweinyddion y clwb a chryn enwogrwydd i ni fel clwb drwy gampau pêl droed Mair Nutting – cafodd sylw byd eang ar y cyfryngau cymdeithasol! Yn sgîl hynny, aeth y clwb ati i wneud fideo o aelodau'r clwb yn hen ac yn ifanc yn pasio' pêl-droed o un i'r llall gyda'r uchafbwynt wrth gwrs o Mair yn cicio'r bêl drwy ffenest sgeileit yn y to! Braf cael rheswm i wenu ac i ddod a ni at ein gilydd er yn rhithiol ar adeg mor unigryw yn ein hanes.

**Elen Madrun Llewelyn Evans**

(Gweler englyn Bardd y Mis i Mair Nutting ar t.16 (Gol.) )














Mae'n sbel ers i mi sgwennu fy ngholofn dwetha i'r *Tincer*, ac yn amlwg mae cryn dipyn o bethau di newid ers hynna. Mae'n gyfnod anodd i lawer o bobl, ac rydw i'n falch iawn o'r gwaith mae Bro360 yn wneud wrth helpu i dros 50 o bapurau bro Cymru i gyhoeddi rhifynnau ar-lein, a dosbarthu newyddion ymhellach na jyst gogledd Ceredigion ac Arfon.

Ta beth, nôl i ogledd Ceredigion. Ers i'r coronafeirws ein cadw ni i'n tai, da ni di bod yn ceisio rhoi sylw i bethau all fod o ddefnydd i'r bobol, megis rhestr o fusnesau sy'n cludo bwyd a nwyddau, a chynorthwyo capeli ac eglwysi lleol i gyrraedd eu plwyfi'n ddigidol. O ran straeon o'r gymuned, mae'n werth darllen diweddariad wythnosol Lloyd Warburton am y sefyllfa'n Ceredigion. Dyma'r unig le i chi ddarllen colofn wythnosol am sefyllfa ein bro ni, a da ni'n ddiolchgar iawn i Lloyd am greu'r darnau.

Mae hefyd ddarnau grêt am bynciau amrywiol, o hanes un o feibion Aberystwyth yn y Rhyfel Byd Cyntaf, i un o erthyglau orau cylchgrawn *Y Wawr*, am beth yw hi i fod yn ferch yn yr oes yma – mae siŵr o fod rhywbeth at ddant pawb na! Felly ewch draw i www.broaber360.cymru! Cofiwch fod modd i CHI gyfrannu i'r wefan hefyd – wedi'r cyfan, eich gwefan chi ydy. Os ydych eisiau creu Cyfrif, pwyswch Ymuno ar dop-dde'r sgrin, a dilynwch y camau ar y sgrîn.

Ymysg y digwyddiadau i gyd sy di gael eu gohirio gan COVID-19 mae lansiad BroAber360, oedd i fod i ddigwydd dydd Gwener 14 Mai. Ond os yw'r sefyllfa bresennol di dysgu un peth i ni, hynny ydyw bod does dim angen bod yn yr un man i fod yn rhan o ddigwyddiad cymunedol, felly mae'n falch allai sôn fod lansiad digidol BroAber360 wedi cymryd lle rhwng 8 – 12 Mehefin. Ewch i'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i ddarllen straeon amrywiol a diddorol, ac i weld be ddigwyddodd, yn enwedig ar ein diwrnod digwyddiadau digidol ar y 12fed!

Os ydych eisiau cysylltu â mi ynglŷn â stori, neu am unrhyw reswm arall, gallwch wneud drwy e-bostio danieljohnson@golwg.com

# Parti Llefaru Nantafallen



Diolch Ceris am anfon gwahoddiad i ysgrifennu gair am Barti Llefaru Nantafallen gan achosi tipyn o ben tost i fi, am nad ydw i'n cadw dyddiadur ac ar ôl 45 mlynedd go niwlog yw'r cof! Osian o Gaerwen gynt anfonodd lun o'r parti i 'Atgofion Eisteddfodau' ar y gwep lyfr a hynny oedd y sbardun dros anfon y cais ataf.

Rhaid bod y parti wedi ei sefydlu yn gynnar iawn wedi i fi ac Enid symaud i lawr i fyw ar y ffordd i Clarach yn y flwyddyn 1975, gan fod y parti wedi cystadlu fis Tachwedd yng Ngŵyl Gerdd Dant Aberhonddu y flwyddyn honno. Rhaid fod rhai o'r merched lleol wedi dod ata i a holi am greu parti llefaru, rhywun fel y ddiweddar Gwyneth, Gaerwen a wyddai bod parti gen i yn Ffestiniog, a gystadlodd yn y Genedlaethol yng Nghricieth a chael llwyfan yn Awst 1975.

Parti o 15 o wragedd ifanc oedden nhw bron i gyd wedi penderfynu dianc rhag eu plant bob nos Fercher am awr neu ddwy a'u gadael yng ngofal eu gwŷr. O fewn y pedair blynedd wedyn cyrhaeddodd dros ddwsin o blant bach ychwanegol, felly ni ddioddefodd y priodasau! Cwrdd y byddem yn ein tŷ ni yn Gwyddfor, Ffordd Clarach, pawb yn cwtsho'n dynn mewn lle cyfyng a neb yn cwyno gormod heblaw am y setî a bantiodd lawr y canol i'r llawr.

Merched yn byw yn lleol yn Bow Steet oedden nhw a'r rhan fwya ohonyn nhw wedi symud i fyw i'r pentre. Felly, rodd yna amrywiaeth mawr o dafodieithoedd o Lŷn, Penllyn, o fröydd Ardudwy i Myrddin, ac o lannau Taf, Hafren a Dyfi, heb sôn am Geredigion. Gan nad oeddwn i'n adroddwr nac yn fab i adroddwr rythmau siarad oedd rythmau'r llefaru a ches i erioed lawer o drafferth sicrhau asiad digon rhyngddyn nhw.

Cystadlu oedd y prif sbardun, gan gynnwys yr Ŵyl Gerdd Dant, gan ennill 8 gwobr gyntaf (rhaid bod y cystadlu'n denau!) a chael tair ail wobr ac un trydydd yn y Genedlaethol. Mae'r llun a anfonodd Osian yn eu dangos yn perfformio yn seremoni agoriadol y Babell Lên yn y Genedlaethol ym Machynlleth (ym 1981). Byddem yn cystadlu yn flynyddol yn Eisteddfod y Bont, a hefyd mewn eisteddfodau lleol ac am ryw reswm yn Eisteddfod Llangwm yn y babell ynghanol y pentre. Cofiaf i ni rannu bws i fyny i Langwm gyda Cantre'r Gwaelod ac aeth y gyrrwr bws i drafferthion gan fod yr hewl yn rhy gul! Lluniais ddetholiad o farddoniaeth genedlaetholgar gref gogyfer â Gŵyl Gerdd Dant Llansannan a chafodd y parti dderbyniad arbennig iawn gan y beirniad a'r gynulleidfa yno. Serch hynny mewn cyngerdd yn ardal Machynlleth ychydig wedyn derbyniad digon oeraidd gawsant am yr un cyflwyniad a hynny mae'n debyg yn adlewyrchu chwaeth y gynulleidfa. Yr hyn a enillodd y merched oedd cael profiad o lefaru ar lwyfannau cenedlaethol a chael yr hyder i berfformio'n gyhoeddus, i deithio i ardaloedd dieithr a chael digon o gyfle i glebran a mwynhau cwmnïaeth ei gilydd. Mae'n wir iddynt gael ei hymestyn i greu rhyw fath o gyflwyniad llafar gogyfer â Gwŷl Gerdd Dant Aberystwyth (1997), pan ychwanegwyd rhai aelodau iau. Dros gyfnod o ryw ddeng mlynedd, fe wnaeth y parti fwynhau ennill ac fe ddysgon nhw hefyd sut roedd colli, sydd yr un mor bwysig.

Yn sgîl y gwahoddiad i sgrifennu'r darn hwn derbyniais gopi gan Ceris o'r *Tincer*. Ni allwn ond rhyfeddu at ei gynnwys. Mewn cyfnod lle nad oes fawr ddim yn digwydd, llwyddodd i dderbyn erthyglau o bedwar ban byd! Mwynheais ddarn John Meurig, un y bûm yn rhannu tŷ gydag ef pan oeddwn yn athro ym Mhontypridd a hefyd darn Elen Rhys, gan mai fi oedd y beirniad a gyflwynodd iddi wobr Llwyd o'r Bryn yn y Genedlaethol yn Llanelwedd.

Diddorol oedd darllen sylw Siân Teifi mai yn Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Aberystwyth oedd y tro cyntaf iddi feirniadu llefaru ac mae stori y tu ôl i hynny.

Ar ddydd Sadwrn yr Eisteddfod daeth yn eira mawr ac wrth deithio i mewn i'r dref teimlwn yn ddigon anobeithiol ynglŷn â chynnal eisteddfod gan na fyddai'r beirniad wedi llwyddo i gyrraedd. Wrth gyrraedd y Neuadd Fawr pwy oedd yno yn disgwyl amdanaf ond y ddiweddar Haf Morris wedi cyrraedd bob cam o Drawsfynydd. Roedd hi wedi cerdded o Traws i Ddolgellau, wedi cael ei chludo i ddal trên yn y Bermo ac wedi cyrraedd Aberystwyth mewn pryd! Dim ond Haf druan fyddai wedi gwneud yr holl ymdrech i gyrraedd Eisteddfod gylch. Dw i ddim yn cofio pwy oedd y beirniad llefaru ond gwyddwn nad oedd gobaith ganddo gyrraedd. Cofiais fod Siân yn fyfyrwraig yn byw ym Mhantycelyn a gwyddwn amdani fel llefarwraig o fri. Draw â fi i Bantycelyn, cael gwybod pa un oedd ei hystafell, curo ar ei drws a'i chodi o'i gwely. Yn ffodus i fi ac i'r eisteddfod, cytunodd i newid ei threfniadau am y dydd a dod atom i feirniadu! A dyna oedd ei cham cyntaf ym myd beirniadu.

**Alun Jones**



# Ysgol Trefeurig

**Fel yr adroddwyd yn Nhincer Mai bu farw Valma Jones (Tal-y-bont gynt) yng Nghartref Abermad, Llanilar ar Fai 12 yn 100 oed. Bu'n brifathrawes yn Ysgol Trefeurig rhwng 1970-80; dyma atgofion o'i chyfnod yno.**

Treuliais ddeng mlynedd ddifyr a phrysur fel prifathrawes yn ysgol Trefeurig. Yr oeddwn i ac eraill o'm cydnabod wedi clywed sôn yn y tridegau a phedwardegau cynnar am ysgol Trefeurig fel ysgol fywiog yn y gymuned.

Wedi imi ddod yn ôl i Geredigion bûm yn brifathrawes yn ysgol Elerch nes iddi gau [1] a'r plant fynd i ysgol Tal-y-bont. Yn y chwedegau cefais fy hun yn athrawes gyda'r diweddar Rhys Jones yn Ysgol Penrhyn-coch.


Un prynhawn ym mis Mehefin 1970 daeth y Cynghorwr Holdcroft i'r ysgol i hysbysu'r prifathro fod y Cyngor Sir wedi pasio i gau Ysgol Trefeurig a bod y plant i ddod i lawr i ysgol Penrhyn-coch ym mis Medi. Yn fuan wedi hyn daeth plant ysgol Trefeurig gyda'u prifathrawes, Mrs Roberts, i lawr i ysgol Penrhyn-coch i gael golwg ar yr ysgol y byddent yn dod iddi ym mis Medi.

Yr oedd y Cyngor Sir, wrth basio i gau'r ysgol, wedi gweithredu'n anghyfreithlon oherwydd nad oeddynt wedi rhoi digon o rybudd i'r pentref fod yr ysgol i'w chau! Felly, ym mis Awst cefais fy ngalw i weithredu fel prifathrawes yn Nhrefeurig.

Deallais fod y Swyddfa Addysg yn trefnu i werthu'r adeilad a bod un yn barod i'w brynu.

Cyrhaeddais yr ysgol yn gynnar ar y Llun cyntaf o Fedi. Yr oedd y drws yn agored ond yr oedd popeth yn ddistaw fel y bedd. Cerddais i'r iard. Yr oedd yn fore hyfryd, yr haul yn tywynnu a'r adar yn canu. Natur ar ei gorau. Hoffais y lle ar unwaith a theimlais fod y llecyn hwn ynghanol prydferthwch Ceredigion yn lle delfrydol i






blant gael eu haddysg gynnar.

Toc, dyma'r plant yn cyrraedd, deuddeg ohonynt, pob un yn Gymry Cymraeg eu hiaith. Buan iawn y daethom i adnabod ein gilydd ac i setlo i lawr i waith efo'r pynciau arferol. Penderfynais geisio ymestyn eu gorwelion a rhoi mwynhad iddynt yn y 'pethe'.

Manteisiais ar y cyfle, trwy cymorth y Trefnydd Cerdd[2] i brynu recorders i'r plant a chael athrawon teithiol i ddod i'r ysgol yn rheolaidd i roi gwersi ar y ffidil, y soddgrwth, y clarinet ac offerynnau eraill. Yr oedd y cwbl yn brofiad newydd iddynt. Daeth y plant hyn i chwythu'r recorders yn dda, ac rwy'n falch o glywed bod rhai ohonynt wedi dilyn gyrfa gerddorol yn Lloegr a Chymru. I gyfundrefn addysg Ceredigion y mae'r diolch.

O weld brwdfrydedd y plant a'u hwyl yn canu a pherfformio, penderfynais y buaswn yn trefnu cyngerdd Nadolig. Rhaid oedd rhoi cyfle i'r plant gael dangos eu doniau'n gyhoeddus ar ddiwedd y tymor. Rhaid oedd cael côr bach, cyd-adrodd, parti recordyrs a gorffen, fel y gellid disgwyl, efo Drama'r Geni.

Yr oedd hwn eto yn brofiad newydd iddynt ac wrth gwrs yr oeddynt wrth eu boddau yn cael gwisgo i fyny mewn dillad lliwgar i actio. Cawsom Joseff a Mair, yr angylion, y doethion a'r bugeiliaid i orffen y noson efo tableau o'r olygfa yn y preseb ar lwyfan a fenthyciwyd o'r Ysgol Gymraeg wedi ei oleuo â lampau pwrpasol a fenthyciwyd o ganolfan Felin-fach.

Yr oedd y rhieni, y teidiau a'r neiniau a ffrindiau'r plant i gyd wedi dod i'w clywed. Yr oedd y neuadd dan ei sang. Cafwyd derbyniad ardderchog a chymeradwyaeth frwd, pawb wedi eu plesio.

Ar derfyn y gymeradwyaeth cododd y Cynghorydd Holdcroft ar ei draed i ganmol y plant a diolch iddynt am y 'wledd' a gafwyd ganddynt. Aeth ymlaen i ychwanegu ei bod yn ddrwg ganddo orfod cyhoeddi mai hwn oedd y tro olaf y gwelid y plant ar y llwyfan oherwydd fod yr ysgol i'w chau ac y byddent i gyd yn mynychu ysgol Penrhyn-coch ar ôl gwyliau'r Nadolig.

Prin ei fod wedi gorffen siarad pan aeth y lle yn ferw gwyllt. Daeth y rhieni at ei gilydd yn y fan a'r lle i benderfynu beth i wneud. Y dydd Llun canlynol gadawodd pob rhiant ei waith i fynd i lawr i Aberystwyth i erfyn ar y Cyfarwyddwr[3] i gadw'r ysgol ar agor.

Ei ateb oedd 'Na, mae'r ysgol wedi ei chau a threfniadau wedi eu gwneud i gario'r plant i ysgol Penrhyn-coch.' Cefais innau air i fynd gyda hwy i Benrhyn-coch. Roedd y rhieni a ffrindiau'r ysgol yn benderfynol o fynd ymhellach ac aethant at yr Aelod Seneddol, Y Barnwr Elystan Morgan, am gyngor cyfreithiol. Y cam nesaf oedd galw ar y Cynghorwyr Sirol i arwyddo deiseb fyddai'n gorfodi galw Cyfarfod Arbennig i drafod y mater. Ni ellid cynnal y cyfarfod yn Aberaeron tan ddydd Iau o'r wythnos gyntaf yn Nhymor y Gwanwyn.

Ar y dydd Llun cyntaf o'r tymor daeth y tacsi, fel y trefnwyd, i fyny i'r pentref i gludo'r plant i Benrhyn-coch. Yr oedd y rhieni wedi cadw'r plant o'r ysgol a bu raid i'r tacsi fynd yn ôl yn wag. Gwrthodais innau fynd i Benrhyn-coch. Daeth yr hanes i sylw'r cyfryngau a bu gwŷr y Wasg, y teledu a 'r radio yn holi'r pentrefwyr a dilyn y criw mawr a aeth i lawr i'r cyfarfod arbennig yn Aberaeron. Wedi protesto hollol ddi-drais yn y cyfarfod yn Aberaeron cafwyd buddugoliaeth. Ail-agorwyd yr ysgol ar ôl iddi fod ar gau am wythnos gron.

Aeth rhif y plant i fyny i 17 ac apwyntiwyd Mrs Della Williams i'm cynorthwyo a chawsom ddeng mlynedd o gydweithio penigamp. Yr oedd yn athrawes effeithiol a brwdfrydig.

O ganlyniad i frwdfrydedd a llwyddiant y protestio daeth yr awydd i ystyried yr ysgol fel canolfan gymdeithasol i'r pentref ac felly y bu gyda chymorth Mr Alwyn Jones, y Swyddog Addysg Bellach, ac eraill yn y swyddfa. Mae gennyf nifer o atgofion hyfryd am y blynyddoedd a dreuliais yn Nhrefeurig.

**Valma Jones**

Yn *Atgofion: memories*. (Yr Ysgol), 2000)
Diolch i deulu y ddiweddar Valma Jones am ganiatâd i ail gyhoeddi.

1) 1958
2) Penodwyd Alan Wynne Jones yn Drefnydd Cerdd yn Awst 1967
3) John Henry Jones


Cynhaliwyd angladd preifat – yn ôl y cyfyngiadau presennol - dydd Iau 28 Mai yn Amlosgfa Aberystwyth. Cafwyd teyrnged gan ei nai, Iestyn Morris a galluogodd y dechnoleg i aelodau'r teulu ym Mhatagonia ac Awstralia ddilyn y gwasanaeth.

# Colofn Enwau Lleoedd

Lleolir pentref *Goginan* ar briffordd yr A44 rhwng Capel Bangor a Phonterwyd, gyda'r hen bentref, *Hen Goginan*, yn gorwedd yn y dyffryn islaw ar lan ogleddol afon Melindwr. Gwelwyd twf sylweddol yno yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan oedd gwaith mwyngloddio arian plwm *Goginan* ar ei anterth.

Mae'n werth nodi i'r pentref gael ei adnabod hefyd yn y gorffennol fel *Pentre'r Druid* (ar ôl tafarn *Y Druid*) a *Phentre Sayer* (ar ôl *John Sayer* y tafarnwr).

Ymddengys i'r enw *Goginan* gael ei drosglwyddo i'r pentref o ffermydd *Goginan Fawr* a *Goginan Fach* sydd i'w gweld ar y llethrau uwchlaw *Hen Goginan*.




**Map 6" yr Arolwg Ordnans 1887. Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban**

Mae sillafiad yr enw wedi amrywio'n fawr dros y blynyddoedd, fel yr amlygir mewn sylw gan Lewis Morris yn ei arolwg o weithiau mwyn yr ardal yn 1744:

> This work is mention'd by all our mineral writers, under the different names of *Goginian*, *Goginan*, *Coginan*, *Kyginan*

**'An Account of the Lead & Silver Mines in the King's Mannor Called Cwmmwd y Perveth' David Bick & Philip Wyn Davies: *Lewis Morris and the Cardiganshire Mines* (1994) t.45**

Ond un o'r cofnodion hanesyddol mwyaf arwyddocaol ohono o safbwynt dehongli ei ystyr yw'r un sy'n digwydd yng Nghofrestr Plwyf Llanbadarn Fawr yn 1718 yn y ffurf *Ceginan*. Awgryma'r cofnod hwnnw (ymhlith eraill) mai *cegin* yw'r elfen gyntaf, nid yn yr ystyr arferol 'lle i goginio', ond yn hytrach 'cefnen, esgair, neu drum'. Dynoda'r terfyniad bachigol *-an* mai 'cefnen fechan' oedd yma. Gydag amser, trodd y sillaf gyntaf ddiacen *ceg-* yn *cog-*, a threiglwyd yr enw i roi'r ffurf *Goginan* sy'n gyfarwydd i ni heddiw.



Gallasai'r enw fod yn cyfeirio at gefnen y Castell (canol y llun) sy'n gorwedd rhwng fferm *Goginan Fach* (ar y chwith isaf) a phentref *Goginan* (ar y dde).

Cofnodir enghraifft arall o'r enw *Goginan* am fferm i'r de o'r Gors (New Cross), ar fap chwe modfedd yr Arolwg Ordnans yn 1887, er ei bod yn cael ei hadnabod bellach fel *Glastir Farm*. Dengys hen ffurfiau'r enw hwnnw (*Tyddyn Ceginan* (1604/5) a *Cae Ceginan* (1690) yng ngweithredoedd Cwrt Mawr, a *Coginan* ar y Map Degwm (1844)) iddo datblygu yn yr un modd ag enw pentref *Goginan*.

Ar y llaw arall, arhosodd yr enw'n ddigyfnewid yn achos fferm *Ceginan* sy'n gorwedd i'r dwyrain o Fwlch-y-groes, ger Llandysul.

Mae'n debygol mai'r un elfen *cegin* 'cefnen, esgair, trum' sydd i'w gweld yn yr enwau *Llety'rgegin* ym Mlaen-plwyf, Ceredigion, a *Charnau Cegin* a *Cherrig Cegin* rhwng Llangadog a Llandeilo yn sir Gaerfyrddin.


**Angharad Fychan**

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a'r Cynllun LLWYBRAU

**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

# Geirfa Dafydd ap Gwilym


Dafydd Johnston *'Iaith oleulawn': geirfa Dafydd ap Gwilym*. Gwasg Prifysgol Cymru, 2020. 320t. £24.99




Dyma'r astudiaeth gyflawn gyntaf o eirfa hynod a chyfoethog Dafydd ap Gwilym, bardd enwocaf y Gymraeg. Mae'r llyfr yn dangos sut y creodd Dafydd ei farddoniaeth amlweddog trwy gyfuno ieithwedd hen a newydd, llenyddol a llafar, brodorol ac estron. Trafodir y geiriau a gofnodwyd am y tro olaf yn ei waith, a'r nifer fawr a welir am y tro cyntaf, y benthyciadau o ieithoedd eraill, ei ddulliau o ffurfio geiriau cyfansawdd, a geirfa arbenigol amryw feysydd fel crefydd, y gyfraith, masnach a'r meddwl dynol. Mae'n cynnig ffyrdd newydd o werthfawrogi cerddi Dafydd ap Gwilym trwy drafod ystyron a naws geiriau'n fanwl. Mae llawer o'r geiriau a drafodir yn y llyfr yn gyffredin hyd heddiw, ac mae'r dadansoddiadau'n gymorth i ddeall datblygiad yr iaith a'r modd y mae geiriau'n cael eu ffurfio. Bydd y gyfrol felly yn apelio i'r darllenydd cyffredin, llengar sy'n hoff o farddoniaeth, yn ogystal â myfyrwyr ac academyddion Cymraeg.

# Adolygiad

Huw Ceiriog *Y Chwaer Hynaf: Hanes Eisteddfod Cymrodoriaeth Talaith a Chadair Powys 1820-2020*. Cymrodoriaeth Talaith a Chadair Powys, 2020. 122t. £10.00 Copïau ar werth yn Siop Inc, Aberystwyth – gellir trafod cludiant.




Ganed a maged Huw Ceiriog, awdur y gyfrol hon, yn nhiriogaeth Eisteddfod Powys, a bu'n un o'i dilynwyr selocaf ar hyd y blynyddoedd. Enillodd Gadair a Choron yr Eisteddfod yn ei dro, ac yn 2014 yn ei hen ardal, Dyffryn Ceiriog, urddwyd ef yn Dderwydd Gweinyddol yr eisteddfod honno. Teyrngar hefyd a fu, fel y gwyddom, i chwaer iau Eisteddfod Powys, sef yr Eisteddfod Genedlaethol. 'Nid y Bowys bresennol sydd yma', meddai'r awdur ar ddechrau ei bennod gyntaf, 'ond yn hytrach yr hen ranbarth, a rannwyd yn 1116 yn Bowys Fadog a Phowys Wenwynwyn'. Yna ceir ganddo restr o gymydau'r ddwy Bowys, rhai ohonynt a'u henwau'n delynegol i'r glust – Cynllaith, Mochnant Is Rhaeadr, Llannerch Hudol, Ystrad Marchell . . .

Yn yr ardaloedd hyn yn y cyfnod dan sylw y trigai tri offeiriad sef Walter Davies (Gwallter Mechain), John Jenkins (Ifor Ceri, enwog am ei groeso yn ei ficerdy, ac y gelwid ef yn Ifor Hael o Geri ar bwys hynny), a W. J. Rees, clerigwr a hynafieithydd. I'r ficerdy croesawgar hwn y dôi eraill o gyffelyb fryd a lwyddodd i ennill cefnogaeth Thomas Burgess, Sais a oedd yn Esgob Tyddewi yn y cyfnod hwnnw. Ym mis Hydref 1818 galwyd cyfarfod cyhoeddus yn y Llew Gwyn, Caerfyrddin, a'r esgob yn bresennol, ynghyd â rhai o bersoniaid llengar y dydd. Yno hefyd yr oedd Iolo Morganwg. Sefydlwyd 'The Cambrian Society of Dyfed' gyda'r bwriad o gynnal a hyrwyddo llên y genedl, ei hanes, hynafiaethau a'i thraddodiad cerddorol. Yr oedd yn fwriad hefyd i gynnal eisteddfodau. Cawn wybod mai ar y dydd Sadwrn yn dilyn yr eisteddfod, yng ngardd y Llwyn Iorwg, y cysylltodd Iolo Morganwg ei Orsedd y Beirdd, â'r mudiad eisteddfodol.

O ail bennod y gyfrol hyd at eleni ceir cofnodion am yr eisteddfodau Powysaidd a gynhaliwyd o 1820 ymlaen, a'r prif sylw, yn naturiol, ar y rhai cynharaf. Goddefer i mi nodi rhai pethau (maent yn lleng na fyddai'n bosib mynd ar eu hôl yma) a ddenodd fy sylw wrth fynd drwy'r gyfrol drawiadol hon.

Ai am fy mod yn Gardi o hen wehelyth, tybed, y syrthiodd fy llygad ar haelioni'r gwobrau a gynigid yn yr eiteddfodau cynnar hyn? Ieuan Glan Geirionydd yn ennill deng gini am gerdd ar y testun 'Hiraeth Cymro am ei Wlad', a Bardd Nantglyn yn mynd adref â medal arian gwerth pum gini, a phymtheng gini mewn arian parod yn ei boced. Beth fyddai'r swm heddiw a gyfatebai i'r gwobrwyon hyn? Gwallter Mechain, yn eisteddfod Wrecsam 1820 eto, yn areithio ar y llwyfan, ym mhresenoldeb y Cadeirydd, Syr Watkin Williams Wynn, ac yn llafar ganu:

> Rhaid i'r gweilch, crasfeilch, croesfaith
> Ein lladd ni cyn lladd ein iaith.

'Tybed', meddai'r awdur, 'beth oedd barn y bonedd uniaith Saesneg am ei araith?' Gellir awgrymu efallai y byddai'r gair *quaint* yn digwydd mwy nag unwaith yn eu sgwrs hwy. Byddai eu tebyg serch hynny, wrth eu bodd yn y cyngerdd mawr a gynhaliwyd ar ddiwedd Eisteddfod y Trallwm, 1824, yn Neuadd y Dref yno. Yr unig gân Gymraeg a gafwyd y noson honno oedd 'Ar Hyd y Nos'.

Caneuon Saesneg oedd y rhan fwyaf, gyda rhai mewn Eidaleg a Lladin. Does ryfedd i Ifor Ceri gyfeirio at y cyfan fel 'Anglo-Italian farce'.

Blynyddoedd yn ddiweddarach – yn Eisteddfod 1858 yn Llangollen, cawn ddyfyniad o'r cylchgrawn *Byegones* am y Doctor William Price, Llantrisant, a'i ferch Penelope:

The young lady rode a cream-coloured charger, and on her head she wore a cap of foxskin, the brush at the top falling down her back. The Doctor wore the same with a very peculiar green trousers, scalloped at the bottom, scarlet waistcoat and a round green jacket.

Cawn wybod am Eisteddfod Meifod, 1892, bod arwyddeiriau Cymraeg a Saesneg o gwmpas y llwyfan gan gynnwys un a oedd yn sicrhau'r gynulleidfa - 'Heaven helps those who help themselves'. Pan ddaeth yr Eisteddfod i Gaersŵs ym 1910, tarfuwyd arni yn ystod un o'r seremonïau dydd Llun gan storm o law. Camp i'r gynulleidfa fawr oedd clywed yr hyn a oedd gan y Derwydd, Cadvan, i'w ddweud. Meddai'r *Aberystwyth Observer*, 'Cadvan has a thunderous voice, but he was outdone on Monday'.

Y mae yn y gyfrol hon doreth o luniau a mapiau wedi eu dewis yn ofalus – llawer ohonynt wedi bod yn gudd am flynyddoedd lawer, ond yn ddogfennau y gellir treulio sawl orig ddifyr yn syllu arnynt ac (yn achos lluniau'r dogfennau a gynhwysir) eu darllen yn hamddenol, er bydd angen cymorth chwyddwydr yn achos ambell un. Ond byddai chwilio am un o'r cyfryw a'i ddefnyddio yn werth y drafferth bob tamaid. Ar ddiwedd y gyfrol ceir nifer o atodiadau defnyddiol sy'n ychwanegu at ein gwybodaeth o'r Eisteddfod bwysig hon, a hefyd mynegai manwl i'r lleoedd a'r bobl y cyfeirir atynt ynddi.


Fe wêl y sawl a ddarlleno'r sylwadau uchod imi ddewis dyfyniadau a digwyddiadau sy'n tueddu at yr ysgafn – pethau na fyddai awdur arall wrth lunio cyfrol fel hon o bosib wedi sylwi arnynt, ond a apeliodd at yr awdur arbennig hwn y mae ei gyfeillion a'i gydnabod yn gyfarwydd iawn â'i hiwmor tawel ond direidus. Na chamarweinier neb gan hynny. Cyfrol yw hon sy'n ffrwyth ymchwil hir, dyfal a chydwybodol, a'r ymchwil hwnnw wedi esgor ar dalp o'n hanes eisteddfodol a chyffredinol hefyd. Darllen anhepgor i bob Cymro a Chymraes balch o'u cenedl a'u hetifeddiaeth. Boed darllen mawr arni. Nid bob dydd y down ar draws ei bath. Mawr ddiolch Huw Ceiriog!

**Tegwyn Jones**

Fel popeth arall y dyddiau yma oherwydd yr haint gohiriwyd Eisteddfod Talaith a Chadair Powys Rhosllannerchrugog a'r cylch 2020 oedd i fod i gael ei chynnal ddydd Gwener a dydd Sadwrn Gorffennaf 17eg a'r 18fed 2020, am flwyddyn. Y dyddiadau newydd fydd dydd Gwener a dydd Sadwrn, Gorffennaf 16eg a 17eg 2021. Yr un fydd y *Rhestr Testunau* ar gyfer yr Eisteddfod.

O ganlyniad, cynhelir Eisteddfod Talaith a Chadair Powys Eisteddfod Talaith a Chadair Powys Edeyrnion a Phenllyn, Y Bala 2021, ym mis Hydref 2022. Gweler http://www.eisteddfodpowys.co.uk

# Colofn Elin Jones



Wrth ysgrifennu'r erthygl hon, mae'r 'lockdown' yn parhau i Geredigion ac i Gymru, ac mae'r neges yn parhau, sef – arhoswch adref i arbed ein Gwasanaeth Iechyd, ac i achub bywydau.

Mae gweithwyr allweddol trwy gydol y sir, pobl sy'n gweithio yn ein ysbytai, yn ein cymunedau ac yn ein harchfarchnadoedd yn parhau i ymrwymo at gadw pobl yn saff ac i gadw rhyw fath o 'normalrwydd' yn hyn oll. Diolch iddyn nhw i gyd, mae ein dyled atynt yn fawr.

Mae nifer o fusnesau bach hefyd, wrth gwrs, wedi gorfod addasu i'r 'normal newydd' hyn, ac rwy'n ymwybodol o sawl un sydd yn cynnig gwasanaeth cludo i'r tŷ, a hynny mewn ffordd saff sydd ddim yn ymyrryd â'r polisïau ymbellhau hollbwysig.

Rydym yn dal i aros am ragor o wybodaeth gan y Llywodraeth ynglŷn â chynllun i helpu ffermydd yn ystod hyn. Mae nifer o ffermydd llaeth, er enghraifft, wedi colli cyfle i gyflenwi cwmnïau mawr. Mae yna gynllun cefnogi i ffermwyr llaeth wedi ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, ond mae ffermwyr eraill dal heb fodd i dderbyn cefnogaeth.

Mae nifer fawr o fusnesau twristiaeth wedi cael ei heffeithio'n ddifrifol. Mae fy swyddfa wedi parhau i geisio cysylltu'r rheiny sydd angen cymorth gyda'r cyrff priodol. Roeddwn yn falch iawn i weld y Cyngor yn gweithio'n galed i sicrhau bod cyllid yn mynd i gynifer o fusnesau twristiaeth yn lleol.

Mae nifer o fusnesau wedi gofyn cwestiynau i mi am bynciau nad oedd yn bodoli 3 mis yn ôl. Mae'n broses o ddysgu, ac mae fy swyddfa, sydd yn dal i fod ar agor o bell, yn parhau i geisio rhoi cymorth i bob un sy'n cysylltu.

Clywsom yn ddiweddar bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i ysgolion ailagor ar yr 29ain o Fehefin. Mae llawer o bobl wedi cysylltu â fi i nodi eu bod yn teimlo bod hyn yn rhy fuan. Hoffwn gydnabod y sylwadau hyn, ond hoffwn hefyd gydnabod bod y Cyngor yn cymryd camau i sicrhau diogelwch ein plant, ein hathrawon a phawb sy'n dod i gysylltiad â'i gilydd. Mater i rieni a gofalwyr fydd dewis a ydynt am anfon eu plant yn ôl i'r ysgol ai peidio cyn gwyliau'r haf.

Fel mae sawl teulu neu cwis yn ei wneud erbyn hyn, mae cyfarfodydd y Senedd yn parhau i gymryd lle dros Zoom. Ac er i ambell gamgymeriad gyda meiciau pobl yn peidio diffodd, mae'r gwaith yn parhau gyda scriwtineiddio'r Llywodraeth ar y cynlluniau i warchod pawb rhag Covid19.

Mae'n bwysig hefyd nodi, mai Senedd sydd gan Gymru bellach. Ar y 6ed o Fai mi ddaeth y ddeddfwriaeth i rym i ail-enwi'r Cynulliad yn Senedd. Ar ôl 20 mlynedd o wasanaethu Ceredigion fel yr Aelod Cynulliad cyntaf, rwy'n falch i ddweud mai aelod cyntaf o'r Senedd ydw i hefyd. AS – Aelod o'r Senedd neu MS - Member of the Senedd yn y Saesneg. Rwy'n falch iawn i allu parhau i wasanaethu Ceredigion o dan y teitl newydd hwn. Ond er fod y teitl yn newydd, mi fydd y gwaith yn para yr union yr un fath. A mae'n anrhydedd i'w wneud.


**Tylino Thai Trefechan**
**(Thai Massage)**

Tylino Thai £25 yr awr
Tylino Olew £30 yr awr
Tylinwraig â chymhwyster

Am sesiwn, ffoniwch ni ar
**07878 071367**

**GWASANAETH GARDDIO MYNACH**

**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com



**CYSTADLEUAETH FFOTOGRAFFIAETH**
Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Dan18 oed
Thema: Sylwi ar Natur

Oedolion
Thema: Sylwi ar Liw

BEIRNIAD: Gareth Owen GWOBRAU: 1af £30 2il £20 (yn y 2 gategori)



**DYDDIAD CAU: Gorffennaf 12fed, 2020**

*Danfoner y lluniau, gyda ffugenw, ac enw a manylion cyswllt ar wahan, trwy ebost at lois@steddfota.org neu gellir eu hargraffu os dymunir, a'u hanfon at Lois Williams (Swyddog Technegol), Crynfryn, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8EW*

**CYSTADLAETHAU LLENYDDOL**
Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

18 oed ac iau — Darn o farddoniaeth (dim mwy na 20 o linellau) *neu* ryddiaith (dim mwy na 2 ochr A4) ar y testun "2020"
BEIRNIAD: Anni Llŷn GWOBRAU: 1af Cadair fach 2il £20 3ydd £15

Agored — Llunio cerdd, neu gasgliad byr o gerddi, o ddim mwy na 35 o linellau, ar fesurau caeth a/neu rydd, i ymateb i'r argyfwng Cofid-19 yng Nghymru.
BEIRNIAD: Aneirin Karadog GWOBR: Cadair fach

**DYDDIAD CAU: Gorffennaf 5ed, 2020**

*Danfoner y gwaith, gyda ffugenw arno, ac enw a manylion cyswllt mewn amlen arall gyda'r gwaith, at Shân Crofft, 17 Rennie Street, Riverside, Caerdydd CF11 6EG neu gellir anfon y cyfan drwy ebost shan@steddfota.org*


**SIOP Y PETHE**

Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion

**01970 617120**

Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan

www.siopypethe.cymru



# Cystadleuaeth Côr Cymru yn dathlu'r deg

Ymhen blwyddyn bydd un o gorau Cymru yn ennill teitl Côr Cymru 2021 a gwobr ariannol o £4,000 a chael y cyfle arbennig i gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Côr Eurovision.

Heddiw, cyhoeddodd S4C a chwmni teledu Rondo fanylion cystadleuaeth 2021.

Dyma'r degfed tro i brif gystadleuaeth gorawl Cymru gael ei chynnal ac ers y cychwyn yn 2003 nod y gystadleuaeth yw cynnal a chodi safonau corawl Gwlad y Gân.

Mae 'na bump categori yn y gystadleuaeth – corau plant, corau ieuenctid, corau cymysg, corau lleiisau unfath a chorau sioe. Bydd panel o feirniaid rhyngwladol yn dewis hyd at bedwar côr ymhob categori i berfformio yn y rowndiau cyn-derfynol ym mis Chwefror 2021.

Mae pob côr sy'n cyrraedd y rowndiau cyn-derfynol yn derbyn £500 gyda enillydd y categori yn ennill £1,500.

Bydd y pump côr gorau o'r rowndiau cyn-derfynol, ym marn y beirniaid rhyngwladol, yn cael eu dewis i berfformio yn y ffeinal fawr ar Fai 2ail yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ac yn fyw ar S4C. Bydd gwobr i'r arweinydd gorau a gwobr am y perfformiad gorau gan gôr na fydd yn cyrraedd y ffeinal.

Y cam cyntaf yw recordio sain y corau yn eu cynefin ddechrau Rhagfyr 2020 pan y byddangen i'r corau berfformio rhaglen o 6-8 munud o gerddoriaeth.

"Mae'r gystadleuaeth hon yn un o gonglfeini digwyddiadau S4C ac yn un ry'n ni'n falch iawn ohoni," meddai Elen Rhys, Comisiynydd Adloniant S4C. "Mae'n lwyfan gwych i gorau Cymru ac mae'n beth braf gallu arddangos talentau corawl Cymru ar S4C."


Mae enillwyr y gorffennol yn cynnwys Ysgol Gerdd Ceredigion, Cywair, Côr Heol y March, Serendipity, Côr y Wiber a Chôr Merched Sir Gâr.

Bydd cyfle i gorau ysgolion cynradd hefyd gystadlu yng nghystadleuaeth Côr Cymru Cynradd gyda'r ffeinal ar nos Sadwrn 1af o Fai 2021 a ffeinal Côr Cymru ar 2ail o Fai 2021.

Bydd y rowndiau cyn-derfynol a'r 2 ffeinal yn cael eu darlledu ar S4C. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.s4c.cymru/corcymru** **www.rondomedia.co.uk**

GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

# Merched Plastaf



**Fel rhan o Eisteddfod–T yr Urdd gwelwyd Caryl Ebenezer Thomas ar y teledu yn siarad ar ran Merched Plastaf oedd yn cystadlu. Daethant yn drydydd ar y Corau Merched Bl7 i 25 oed.) Gofynnwyd i Caryl am hanes y parti.**

Dechreuodd y merched ganu gyda'i gilydd am y tro cyntaf gydag ***Adran Salem*** Caerdydd n**ô**l ym mis Medi 2010. Wedi ei sefydlu gan rai o famau'r merched, y bwriad oedd creu Adran yr Urdd er mwyn cynnal gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifddinas, y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Dros y blynyddoedd mae'r aelodau wedi mwynhau cymdeithasu a gwneud ffrindiau newydd gyda phlant o ysgolion eraill. Cystadlodd Adran Salem am y tro cyntaf yn Eisteddfod yr Urdd Abertawe, 2011 pan oedd y plant yn ifanc iawn! Yn eisin ar y gacen, enillodd Parti Unsain Salem y wobr gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd Caerffili, 2015 a chipiodd yr aelodau hynaf y 3edd wobr ar yr Ensemble Lleisiol yn Eisteddfod yr Urdd Sir y Fflint, 2016.

Wrth gyrraedd oed uwchradd, roedd y merched, sy'n gyfuniad o ferched o Ysgolion Cymraeg Plasmawr, Glantaf a Bro Edern, yn awyddus i barhau i ganu gyda'i gilydd, ac yn y man ffurfiwyd ***Merched Plastaf***. O dan arweiniad Caryl a Bethan Webb, cyrhaeddodd y merched lwyfan yr Urdd droeon a chael eu gwahodd i ganu mewn cyngherddau lleol. Dechreuodd y côr ganu alawon gwerin a cherdd dant, a oedd yn brofiad newydd sbon i nifer o'r aelodau, ac roedd cipio'r wobr gyntaf yn y gystadleuaeth i'r Partïon Gwerin Uwchradd yng Ngŵyl Gerdd Dant Blaenau Ffestiniog, 2018 yn binacl i'r merched. Dyma'r tro cynta iddynt gystadlu yn yr Ŵyl Gerdd Dant, a thro cyntaf ambell un i ogledd Cymru! Roedd y daith fws yn ôl o Flaenau i Gaerdydd y noson honno yn un fythgofiadwy! Llynedd yng Ngŵyl Gerdd Dant Llanelli enillodd y merched yr ail wobr yn y gystadleuaeth i'r Partïon Cerdd Dant Uwchradd a'r 3edd wobr yn y gystadleuaeth i'r Partïon Gwerin Uwchradd, mewn dwy gystadleuaeth safonol.

Ym mis Mawrth eleni clywodd y merched eu bod wedi cyrraedd Rownd Derfynol *Cystadleuaeth Corau Ieuenctid Cenedlaethol Côr y Bont* (Pontarddulais) yn cystadlu am Dlws D.Hugh Jones a gwobr ariannol o fil o bunnau. Roedd y gystadleuaeth i fod i gael ei chynnal yn Abertawe ddiwedd Ebrill, ond cafodd ei gohirio am y tro o ganlyniad i'r amgylchiadau ymbellhau presennol o gwmpas Covid-19.

Yn anffodus, ni fyddant yn gallu cystadlu yn Nhregaron eleni wrth reswm, ond mae nhw'n dal i gwrdd yn rhithiol ar Zoom er mwyn dysgu repertoire newydd. Mae'r côr hefyd yn edrych ymlaen at fynd ar daith yn y dyfodol. Mae nifer o'r merched â chysylltiadau teuluol â ardal y Tincer. Ela Glain (merch Caryl), Moli Elin (merch Gwenno gynt o Coetmor, Tal-y-bont), Megan Vaughan Evans – merch Rhodri Evans / wyres i Kathleen Evans fu'n athrawes yn Ysgol Rhydypennau am flynyddoedd a Martha Grug Davies – merch Nia Elin gynt o Gwmbrwyno.

# Chwilio am ymddiriedolwyr



Elusen yn nyddiau cynnar ei bodolaeth yw Sefydliad Tir Gwyllt Cymru. Ei nod yw adfer cynefinoedd ac annog pobl i gysylltu â natur wyllt. Ar hyn o bryd ei phrif brosiect yw Coetir Anian, wedi'i leoli ym Mynyddoedd y Cambria.

Safle o 350 erw yw Coetir Anian. Wedi'i leoli ger Machynlleth, caffaelwyd y tir yn 2017 mewn partneriaeth â Coed Cadw (Woodland Trust). Mae'r tir yn cynnwys ardal o goetir hynafol 'Coedwig Law Celtaidd', ac ardal fawr o ucheldir sydd wedi'i ddominyddu gan wellt y gweunydd.





Er yn brosiect cymharol newydd, mae llawer wedi digwydd yn barod er enghraifft plannu coed, tynnu ffensys a chyflwyno gyr o geffylau lled-wyllt i'r tir. Yn sgil hyn, gwelwyd amrywiaeth o rywogaethau adar yn dychwelyd, fel ehedydd, y gog, y rugiar goch a sawl aderyn ysglyfaethus.

Agwedd hollbwysig o'r prosiect yw'r rhaglen cynhwysfawr mewn addysg ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Adeiladwyd perthnasoedd gydag ysgolion cynradd lleol, trwy raglen tair blynedd o weithgareddau ar y safle ac yn yr ysgolion. Mae disgyblion yn cael cyfle i ddysgu am natur a sgiliau byw'n wyllt a chymryd rhan mewn prosiectau celf gydag artistiaid lleol. Yn ogystal, cynhelir gwersylloedd ieuenctid ar gyfer grwpiau ysgol uwchradd lle mae'r bobl ifanc yn gwersylla am bum niwrnod (heb ffonau symudol!) yn datblygu dycnwch a hunan hyder trwy fyw ym myd natur. Hefyd, cynhelir diwrnodau gwirfoddoli yn reolaidd sy'n gyfle i bobl leol mwynhau amser tu allan yn dysgu sgiliau amrywiol.

Tîm o dri aelod o staff a Bwrdd Ymddiriedolwyr sy'n rhedeg y prosiect ac mae cyfle wedi codi i un neu fwy o aelodau newydd ymuno â'r Bwrdd Ymddiriedolwyr ar adeg cyffrous ym mywyd y prosiect. Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am y prosiect neu rôl ymddiriedolwr, gallwch ymweld â'r wefan; https://www.coetiranian.org/cyfle-i-ymddiriedolwyr

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Pobman yn dawel**

Mae bywyd yn yr ardal yma yn rhyfedd iawn ar hyn o bryd. Mae newyddion yn brin iawn gan nad oes dim yn mynd ymlaen. Mae pawb yn ynysu eu hunain ond yn barod iawn i helpu ein gilydd pan fo angen. Mae fel bod y cloc wedi mynd yn ôl gyda y ffordd wedi bod yn dawel iawn heb yr ymwelwyr sydd yn dod yma adeg y Pasg ac yna drwy yr haf. Pan wnaethom ni symud i Glynrheidol ym 1985 nid oedd yna lawer o neb yn byw ym mhen uchaf y Cwm ac mi roedd yn ddiogel i gerdded y ffordd gul sydd yn arwain i fyny i'r gwaith mwyn ac i'r afon. Erbyn hyn mae pob adfail wedi ei ail adeiladu gyda theuluoedd yn byw ynddynt a hefyd rhai tai gwyliau. Oherwydd hyn mae y ffordd yn brysur iawn ac yn beryglus iawn ar adegau. Hyfryd oedd cael rhyw ddau fis o dawelwch!

**Genedigaeth**


Braf iawn yw cael croesawu Defi Hywel, brawd bach i Ifan a Twm i Dolhaidd. Llongyfarchiadau i Eurgain a Gerwyn ac mae y ddwy fam-gu Ann a Beti yn falch iawn o'i hyr bach newydd.


**Crwydro'r Cambria**

Cafwyd cyfres hynod ddifyr ar Radio Cymru ym mis Ebrill lle bu Ioan Lord a Dafydd Morris Jones yn mentro allan i diroedd anghysbell eu bro i ddatgelu rhai o gymeriadau a chyfrinachau mynyddoedd y Cambria. Fel nifer o raglenni Radio Cymru yn anffodus ni roddir llawer o gyhoeddusrwydd iddynt ymlaen llaw – gobeithio y bydd modd ail ddarlledu y gyfres yn fuan gan fod eu cynnwys yn werth gwrando arnynt.



# Ysgol Pen-llwyn






**Dysgu gartref**
Mae'r plant yn brysur iawn yn parhau i weithio o adref. Rydym wedi parhau gyda'n system sy'n gweithio'n dda. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael thema wythnosol ar 'Padlet', sef tudalen llawn fideos, gweithgareddau a thaflenni Gwaith, iddyn nhw ddewis a dethol. Yna maent yn rhannu lluniau trwy 'Class Dojo' i'r athrawon farcio a chadw cofnod yn ffeiliau'r plant. Mae Cyfnod Allweddol 2 yn gweithio ar waith Tîm Microsoft â'r gwaith wedi ei osod fel aseiniadau. Maent yn defnyddio amryw o feddalwedd i gwblhau'r tasgau ac wedi cael llwyddiant yn dysgu sut i recordio a lan-lwytho fideos ar 'Flipgrid'. Mae hyn yn ffordd hyfryd o gyfathrebu rhwng y dosbarthiadau a gweld wynebau pawb.

Ein themâu am yr hanner tymor hwn yw:
Fy nheulu
Mabolgampau
Anifeiliaid

**Cyfnod Sylfaen**
Mae llawer o weithgareddau yn digwydd yn y Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys fideos o aelodau'r teulu, gwneud collage creadigol





o goeden deulu, tasgau darllen a mesur taldra aelodau'r teulu er mwyn creu graff. Mae'n arbennig o dda i weld gwaith y plant ac iddynt ymateb i'r adborth.

**Cyfnod Allweddol 2**
Daeth amryw o ddisgrifiadau difyr o aelodau'r teulu. Bu llawer o blant yn creu cyflwyniadau a lluniau gan ddilyn fideo Orielodl. Aeth Mrs Evans ati i greu fideo o'r gwaith.

**Dysgu sgiliau newydd**
Mae'r plant yn defnyddio'r cyfle i rannu ffotograffau a fideos am ddysgu sgiliau newydd hefyd. Yn ogystal a'r staff mae'r plant yn defnyddio'r cyfnod hwn i





ddysgu sut i adeiladu byrddau, adeiladu tŷ mewn coeden, garddio, seiclo, marchogaeth, piano, coginio, torri gwallt rhieni a llawer mwy o bethau diddorol. Mae'r staff yn cymryd yr amser tu allan i oriau gwaith i ddysgu offerynnau newydd, sgiliau newydd ar y cyfrifiadur, ffermio a chadw'n heini.

**Cyfathrebu**
Mae'r athrawon yn parhau i ffonio'r plant yn aml, a mae'n braf cael cyfle clywed y plant yn llawn egni yn rhannu straeon a newyddion. Hefyd, mae lle ar Hwb i gyfathrebu'n dyddiol.

**Ail-agor ysgolion yn raddol**
Erbyn hyn, rydym wedi clywed bydd ysgolion Cymru yn ail-agor ar Fehefin 29ain. Rydym yn brysur yn paratoi'r Ysgol a gwneud y trefniadau yn ôl canllawiau Cenedlaethol.

**Ymarfer Corff**
Cawsom lawer o straeon am blant yn brysur yn defnyddio'r amser i gadw'n heini gan ddilyn sesiynau gan hyfforddwyr ar-lein, rhedeg a cherdded.





Ond mae rhaid canmol Ryan Jones, disgybl blwyddyn 1 am ei ymrwymiad fel rhan o her Clwb Pêl-droed Bow Street. Mae wedi bod yn cerdded, rhedeg a seiclo yn yr ardal mor bell â Chwm Rheidol i adio milltiroedd i'r ymdrech i deithio o amgylch y byd! Bydd ein mabolgampau ychydig yn wahanol eleni ond rwy'n siwr bydd tipyn o hwyl gyda'r cystadlaethau mae'r athrawon yn drefnu!!

**Pontio**
Dechreuodd ddisgyblion blwyddyn 6 gyd-weithio rhyngom ni a'r Ysgolion Uwchradd i gynhyrchu pecynnau pontio fel rhan o'r trosglwyddiad i'r Ysgolion Uwchradd.

# Ysgol Penrhyn-coch

**Croeso nôl**
Croeso nôl i Mrs Catryn Lawrence ac i Mrs Bethan Evans ar ôl eu cyfnodau mamolaeth. Diolch i Miss Rhian Cory ac i Mr Bryn Shepherd am gymryd yr awenau pan oeddynt i ffwrdd. Diolch hefyd i Miss Miriam Pritchard a wnaeth gyflenwi hefyd.

***Dosbarth Bl 1 a 2***
Mae Dosbarth Dau wedi bod yn brysur tu hwnt tra'n gweithio o gartref. Maent wedi bod yn dysgu am yr ardal leol, eu hoff le ac am fwyd, coginio a chadw'n iach. Maent yn cysylltu gydai'u hathrawes trwy 'Class Dojo'. Roedd sawl plentyn wedi creu fideo gan roi cyfarwyddiadau ar sut i goginio rywbeth penodol. Mae'r plant yn gweithio'n galed – da iawn nhw!

***Dyma helyntion Dosbarth Bl 5 a 6***
Penderfynodd Sian i lenwi hysbysfwrdd y pentref gydag arddangosfa o'u gwaith. Roedd hi'n gweld bod yr hysbysfwrdd yn wag felly aeth ati i'w lenwi er mwyn ei wneud yn ddeniadol i bobl edrych arno wrth gerdded heibio. Am syniad gwefreiddiol!

Diolch o galon i Ceris a Frances am ddarllen cerddi yn wythnosol. Roedd Ceris a Frances yn dod mewn drwy wirfoddoli yn wythnosol i wrando ar ddisgyblion yn darllen. Ond oherwydd yr amgylchiadau nhw sy'n darllen i'r disgyblion yn awr. Diolch yn fawr iawn iddynt am roi o'u hamser. Sêr!

**Coginio**
Mae'r plant wedi mwynhau coginio Pizzettas yn ddiweddar gan hyd yn oed greu toes eu hun. Roedd pob un yn edrych yn wych ac yn flasus!!

Fel rhan o'n thema bwyd cafodd y plant yr her o greu darn o gelf gan ddefnyddio bwyd cyn eu bwyta! Cafwyd syniadau gwych.

Llongyfarchiadau mawr i Sian am fod yn fuddugol yn y cwis Gwyddoniaeth a gynhaliwyd yn y ffair Wyddoniaeth a fynychwyd gan ddisgyblion Bl 5 a 6 nôl ym Mis Mawrth. Gwych Sian!

Bu'r disgyblion yn brysur yn darganfod rhywbeth diddorol yn eu hardal leol. Darganfyddwyd llawer o bethau diddorol e.e. hanes hen adeiladau Bont-goch, hanes Plas Gogerddan, Erw Tomen a llawer mwy!

Mi wnaethon nhw hefyd ddanfon llun i greu Neges ewyllys da yr Urdd. Diolch i Miss Fflur Jones am goladu'r fideo.

**Garddio**
Yn ystod ein hwythnos garddio gofynnwyd i'r disgyblion i greu naill a'i clychau'r gwynt neu fwganod brain er mwyn cadw'r adar i ffwrdd o'r planhigion. Cafwyd sawl un arbennig.

**Dysgu sgiliau newydd**
Mae'r plant yn defnyddio'r cyfle i rannu ffotograffau a fideos am ddysgu sgiliau newydd hefyd. Yn ogystal â'r staff mae'r plant yn defnyddio'r cyfnod hwn i ddysgu sut i arddio, seiclo, peintio, chwarae'r piano, coginio a llawer o ffermio Mae'r staff yn cymryd yr amser tu allan i oriau gwaith i ddysgu offerynnau newydd, sgiliau newydd ar y cyfrifiadur, ffermio a chadw'n heini.

**Ail-agor ysgolion yn raddol**
Erbyn hyn, rydym wedi clywed bydd ysgolion Cymru yn ail-agor ar Fehefin 29ain. Rydym yn brysur yn paratoi'r Ysgol a gwneud y trefniadau yn ôl canllawiau Cenedlaethol.







# Doethineb Mam-gu Salem

Yn y llyfr *Salem Soldier* (Y Lolfa, 2012) mae fy nhad yn sôn am ymarferiad feddyginiaethau traddodiadol, yn enwedig gan fy mam-gu Marged Ann Davies o Salem. Mae yn sôn am mam-gu yn ei anfon i gasglu llysiau arbennig o le arbennig er mwyn creu gwellhad i glefyd llid y croen. Roedd hi yn stwmpian y llysiau, yna eu cymysgu gyda saim gŵydd a'u cynhesu mewn sosban. Gadael i'r cyfan oeri ac yna taenu'r eli ar frest y claf, ac yntau yn cael gwellhad llwyr.

Rwyf yn cofio fy nhad yn wael iawn gyda'r clefyd melyn a dim llawer o wellhad trwy driniaeth y meddyg. Mam-gu yn penderfynu am fynd yn ôl i'r hen ymarferiadau a pharatoi powltis o Wermod Lwyd a thaenu hwn arno, ac mewn 24 awr roedd fy nhad yn gwella.



Roedd gan hud gwerin draddodiad hir yn ardal Salem a Penrhyn-coch, ac yn ehangach yng ngogledd Ceredigion. Mae ymarferwyr y cydymdeimladau cudd hyn yn amrywio o lysieuaeth syml i weithgaredd esoterig dwys. Credwyd bod gan y *dyn hysbys* neu'r *consuriwr* y pwerau a'r gallu i wybod a datgelu digwyddiadau yn y dyfodol, yn enwedig o ran cariad a marwolaeth ond roedd ganddyn nhw ddilyniant cryf am eu gallu i wella pobl ac anifeiliaid, yn aml trwy ddefnyddio swyn a chyfaredd. Byddai ymgynghorwyr yn ymgynghori â nhw i ddelio â materion cysgodol yn amrywio o laeth sur i iselder ysbryd. Byddai'r iachâd fel arfer yn cynnwys swyn a fyddai'n cael ei dderbyn yn gyfrinachol gan ddioddefwyr pryderus, gan y byddai'r capeli yn anghymeradwyo meddyginiaethau o'r fath a'r consuriwr, gan fynnu mai gwaith y Diafol ydoedd. Roedd ffyrdd gwledig yn golygu, yn aml pan fyddai salwch yn taro'r trigolion, y byddent yn ymgynghori â gwellhad traddodiadol yn hytrach na thalu am feddyg yn Aberystwyth pell,

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif roedd Llangurig yn arbennig o enwog am ei Dynion Hysbys gyda darparwyr adnabyddus fel Evans Griffiths, a Dicky Davies fferm Fagwyr Fawr ger Ponterwyd. Byddai ofn swynion a dewiniaeth yn achosi i werin wledig ymgynghori â'r dynion doeth hyn a byddai swyn yn cael ei ysgrifennu ar ddarn o bapur ac yna'n cael ei rolio i fyny a'i selio'n ofalus mewn potel a fyddai wedyn yn cael ei rhoi ar drawst yn y tŷ neu wedi'i guddio o dan yr aelwyd i sicrhau amddiffyniad rhag dewiniaeth a chyfnodau a amheuir. Gallai defodau eraill gynnwys gosod gwrthrychau miniog fel drain neu binnau y tu mewn i botel a oedd wedi'i llenwi ag wrin y dioddefwr a'i selio i'w gladdu o dan yr aelwyd. Roedd y botel yn symbol o bledren y wrach a'r gwrthrych miniog yn achosi poen iddi. Credwyd bod hyn yn poenydio'r wrach i ddatgelu ei hunaniaeth a thorri'r swyn. Roedd ymgynghoriadau eraill yn cynnwys sêr-ddewiniaeth, dweud ffortiwn, iacháu a hyd yn oed adfer eiddo coll.

Dywedwyd bod yfed dŵr ffynnon gyda saffrwm yn gwella meddwdod dro ar ôl tro ac yn atal meddyliau digymell trwy fwyta rue yn y bore. Byddai'r dyn hysbys yn ystyried yr ofnau a'r ofergoelion mewn ardal. Roeddent yn aml yn honni eu bod yn gallu rhagweld y dyfodol ond ymgynghorwyd â nhw'n bennaf am eu gwybodaeth am feddyginiaeth draddodiadol a allai gynnig triniaethau i ddynion, menywod, plant ac anifeiliaid. Roedd ganddyn nhw wybodaeth werin esoterig am iachâd llysieuol a meddyginiaethau a oedd wedi cael eu trosglwyddo yn eu teuluoedd ers sawl cenhedlaeth ac yn honni eu bod yn cyd-fynd â grymoedd etherig y tir neu nerthoedd lluniol.

Byddent hefyd yn defnyddio *Maen Magl* i wella amrywiaeth o anhwylderau yn enwedig y rhai sy'n cynnwys anawsterau gyda'r golwg. Priodolwyd iachâd i'r cerrig hyn. Roedd Marguerite Evans, gwraig yr awdur enwog o Gymru, Caradog Evans, hefyd yn cael ei galw'n Iarlles Barcynska, ac ysgrifennodd lyfrau o dan y ffugenw Oliver Sandys. Bu'n byw am beth amser yn New Cross ac yna symudodd i Benrhyn-coch, ac roedd ganddi garreg iachâd y mae'n honni iddi gael ei rhoi iddi gan ddyn hysbys o ardal Ponterwyd y cyfeiriodd ati fel "Old Griff". Daeth hefyd yn ffrindiau ag Evan Griffiths o Langurig. Byddai llawer yn ymweld â hi i gael eu hiacháu gan y garreg yr honnir iddi ddod o Balestina. Honnir bod y garreg wedi cael ei chludo i'r Unol Daleithiau gan ei mab, a dywedir iddi gael ei hatafaelu gan yr F.B.I. Roedd cerrig iachâd eraill yn cael eu galw'n *gerrig nadredd* a honnir eu bod yn effeithiol wrth wella problemau gyda'r golwg. Byddai'r garreg yn cael ei rhoi mewn dŵr dros nos, a'r llygaid yn ymdrochi gan y dŵr y diwrnod canlynol i hwyluso iachâd.

Mae pobl wedi byw yn y dirwedd dawel heb ei difetha ers mil o flynyddoedd ac mae eu dylanwad yn parhau heddiw. O fewn cytgord yr elfennau naturiol y mae'n eu darparu, mae'n werth dod o hyd i unigedd, ac ail-ddarganfod hud a doethineb Mam-gu Salem.

"Gofynnwch, ac fe roddir i chi: ceisiwch, ac fe gewch: curwch, ac fe agorir i chi." (Matthew 7:7-8)

**Brian Davies**

inc

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION

13 Stryd y Bont, Aberystwyth

01970 626 200

GWE Cambrian WEB

Gwefannau Gwych o Gymru

Creu Gwefannau

Marchnata Digidol

Pecynnau Gofal Gwefan

a llawer mwy!

*Gwasanaeth Gymraeg*

Cysylltwch Heddiw

info@cambrianweb.com

01970 623 906

# Alcwyn Magor

Roedd yn hynod o dda gweld y llun o Alcwyn Magor yn rhifyn mis Mai. Roedd fy ewythr Alcwyn yn briod i Sal Magor, chwaer fy nhad Elfed Davies. Roedd Sal yn un o chwe chwaer a gafodd eu magu yn nhŷ bach dwy ystafell wely ar ben y teras yn Salem. Mae hanes y teulu wedi ei adrodd yn y llyfr *Salem Soldier*.

Codwyd y saith plentyn gan eu mam, fy mam-gu Marged Ann, wrth i dad-cu Salem, John David Davies, orfod gadael i weithio ym mhwll glo yn  Nant-y-moel yn Ne Cymru ar ôl cau gwaith mwyn Bwlch Glas.

Symudodd Alcwyn a Sal i fyw i bentref Llandre  ac yna penderfynu adeiladu tŷ newydd yn y pentref. Roedd Alcwyn yn adeiladwr galluog ac roedd ei wraig yn hollol fodlon i'w gefnogi yn ystod y gwaith.

Gŵr direidus oedd Alcwyn ac roedd y ddau yn eisteddfodwyr brwd. Adrodd digri oedd ei rymuster ond roedd ei wyneb tenau a'i ystumante yn medru cefnogi'r adrodd, ac roedd y gynulleidfa yn aml yn chwerthin yn uchel cyn iddo agor ei geg.

Rwy'n cofio'n glir am un noswaith pan oeddwn yn grwt yn eistedd o flaen y tân yn y tŷ yn Penrhyn gyda fy mrawd a mam, gan fod fy nhad allan yn gweithio yn hwyr. Agorodd y drws a dyna sŵn ochneidio cyn gweld pen a gwallt hir du ac anniben yn pipio mewn i'r ystafell. Mam yn cydio'r pocer a symud at y drws a dyna Alcwyn yn tynnu ffwrdd y wig du oddi ar ei ben rhag cael clatsien gan mam.

Gŵr hapus a direidus a oedd yn mwynhau bywyd, ac roedd fy nwy ferch wastad yn edrych ymlaen am ymweliad i Landre a chael sbri gyda Wncwl Alcwyn.

Diolch am yr atgofion.
Brian Davies



Sal Magor yn gweithio'r cymysgwr yn ystod adeiladu'r tŷ yn Llandre



Sal Magor ar y dde gyda ei chwioryddd Megan Elfed (fy nhad) Beattie, Glenys a Lizzie. Buodd Hannah Mary farw yn y 30au.

## Ysgol Craig Yr Wylfa

Yn dilyn y cyhoeddiad annisgwyl braidd gan Kirsty Williams, Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru, ar ddechrau'r mis rydym wedi bod yn brysur iawn yn dechrau paratoi a chynllunio ar gyfer bod yn barod i ail agor yr ysgol ar ddydd Llun Mehefin 29. Yr hyn oedd fwyaf annisgwyl oedd bod y cyhoeddiad yn datgan y bydd hawl gan BOB disgybl dychwelyd i'r ysgol bryd hynny am gyfnod o ddal i fyny a pharatoi ar gyfer mis Medi. Rydym yn disgwyl mwy o wybodaeth ar y broses o ail agor yn fuan er mwyn i ni wybod sut yn union fydd hynny'n gweithio'n ymarferol. Rydym yn gwybod y bydd angen i ni ddilyn canllawiau iechyd a diogelwch llym a chreu asesiadau risg manwl. Bydd yn rhaid i ni gyd gofio golchi dwylo'n drwyadl a chadw pellter cymdeithasol ar bob adeg. Rydym yn gwybod y bydd yr ysgol yn edrych yn bur wahanol i'r hyn ydoedd cyn y dechrau'r cyfnod dan glo. Rydym yn sicr mai cynnig cyfnod mewn wythnos i blant fyddwn ni yn hytrach nag wythnos lawn, gyda llai o blant mewn dosbarth ac na fydd modd cynnal yr un math o weithgareddau chwaith. Yn bendant, bydd y pwyslais mwyaf ar gynnal iechyd a lles y disgyblion yn ystod yr wythnosau cyn diwedd y tymor.

Mi fydd yn ddiddorol iawn i weld sut fydd hyn i gyd yn gweithio'n ymarferol a sut fydd pawb yn ymdopi gyda'r newid.

Yn y cyfamser, mae'r athrawon yn parhau i baratoi gwaith pwrpasol a chyffrous 'ar-lein' ac rwyf am fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'r staff i gyd am eu cefnogaeth yn ystod y cyfnod yma. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i'r holl deuluoedd sydd wedi ein cefnogi dros yr wythnosau diwethaf, ac mae gweld y gwaith y mae'r plant wedi ei gyflawni yn wir yn codi calon.

**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com

**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**

*Trefnwyr Angladdau*

***C T Evans***

Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.

**01970 820013**

*gwyn@ct-evans.co.uk*

**Brongenau,**
**Llandre,**
**Aberystwyth**
**SY24 5BS**

# Tasg y Tincer

Diolch i chi: Now (Aberystwyth), Twm a Ned (Penrhyn-coch), a Lois Martha (Bont-goch) am liwio llun y trychfilod y mis diwetha. Dy enw di, Twm, ddaeth allan o'r het gynta. Llongyfarchiadau mawr! Ddaru chi fwynhau gwylio Eisteddfod T ddiwedd Mai? Roedd hi'n arbennig, yn doedd, ac yn dangos bod modd i ni i gyd ddod at ein gilydd a mwynhau a dathlu, hyd yn oed os ydyn ni ar wahân am y tro.



Ned a Twm

Gobeithio eich bod i gyd yn cofio ei bod hi'n Sul y Tadau ar 21 Mehefin. Beth am greu eich cerdyn ei hun eleni? Dwi'n siŵr bod gennych lond pen o syniadau! A chofiwch helpu Dad – a Dad-cu neu Daid – trwy wneud rhywbeth arbennig ar y diwrnod hwnnw. Beth am goginio cacen i ddathlu?

Welsoch chi'r stori ar y newyddion am long ofod SpaceX ddiwedd Mai? Falle fyddai Dad yn hoffi bod yn un o'r criw y tro nesa y byddan nhw'n mentro o'r orsaf ofod ryngwladol i ganol y sêr! Y mis hwn, lliwiwch lun o'r roced. Tynnwch ffoto o'ch llun wedi'i liwio a'i ebostio ata i (anwenmai@hotmail.co.uk), neu argraffwch y dudalen wedi'i liwio a'i bostio at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Medi 1af Pob hwyl i chi dros wyliau'r haf, a wela i chi ym mis Medi. Ta ta tan toc!














Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn | Oed

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009
*Rhif 430 | Mehefin 2020*